PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

85c | Rhif 476 | Chwefror 2025



**Dydd Mawrth Crempog a'r Ynyd**

t.8



**Cyrtiau Tennis Llandre**


t.11

**Ennill cadair**

t.4



# PRYSURDEB PENWEDDIG




Cwis pop y Selar



Rygbi merched




Gweithdy Pobol y Cwm yn y Llyfrgell Genedlaethol




Ymweliad Amaeth â Fferm Peithyll

GWELER ADRODDIAD LLAWN O BRYSURDEB PENWEDDIG AR DUDALEN 3

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 07737 622034
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, 38 Heol Alun, Waunfawr, Aberystwyth, SY23 3BB
Ebost: ionadavies752@btinternet.
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 07910 720422
hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@icloud.com 07966 510195
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**ADOLYGIADAU LLYFRAU**
**Llinos Dafis**, Cedrwydd, Llandre
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Heulwen Lewis**, Deiniol, Capel Bangor
☎ 880413 heulwenlewis@btinternet.com
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296

CYMRAEG Ariennir y Tincer yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.


# dyddiadur

Rhifyn Mawrth – **Dyddiad cau**: Mawrth 7; **Dyddiad cyhoeddi**: Mawrth 19

**CHWEFROR**

19 Nos Fercher Mike Parker – *On the red hill* Cymdeithas y Penrhyn yn Horeb am 7.30

20 Dydd Iau Gŵyl Offerynnol yr Urdd yn Ysgol Bro Pedr

20 Nos Iau Sharon King a Sion Pennant yn rhoi cyflwyniad ar Gwmni Drama Licris Olsorts Treftadaeth Llandre ym Methlehem Llandre am 7.30 Am ddim i aelodau £2.00 i eraill.

21 Nos Wener 'Llechi Cymru – dros y byd' ; sgwrs gan Dr Dafydd Roberts, Llanberis Cymdeithas Lenyddol y Garn yn festri'r Garn am 7.30

21 Nos Wener Eisteddfod Gadeiriol Swyddffynnon yn Neuadd Pantyfedwen, Ponthydfendigaid o 4.30 hyd hwyr Mynediad: £5.00

21 Dydd Gwener Ysgolion Ceredigion yn cau

*22 Dydd Sadwrn Mared Emyr Pugh-Evans yn y Tabernacl, Machynlleth am 12.00 Tocynnau arian ar y drws £15. 18 ac iau am ddim (Cyngerdd amser cinio Cerdd Machynlleth)* ***GOHIRIWYD***

28 Nos Wener Ffair Gŵyl Ddewi yn y Llyfrgell Genedlaethol o 5.00 ymlaern

**MAWRTH**

1 Dydd Sadwrn Hwyl Ddewi yn Neuadd Goffa Tal-y-bont gyda Llond car ac un yn y bŵt o 6.30 ymlaen

3 Dydd Llun Ysgolion Ceredigion yn agor

6 Dydd Gwener Diwrnod y Llyfr

6 Nos Wener Cicio'r bar - Twm Morys a Merched Soar am yng Nghanolfan y Celfyddydau am 7.45 £11.50 (£9.50)

14 Nos Wener Cymdeithas Lenyddol y Garn yn Dathlu Gŵyl Ddewi ym Methlehem, Llandre yng nghwmni talentau ifanc lleol am 7.00

18 Nos Fawrth Arddangosiad - Elizabeth Gordon Cymdeithas Trefnu Blodau Aberystwyth a'r cylch yn Neuadd Llanfarian am 7.30

20 Dydd Iau Eisteddfod yr Urdd Ceredigion cylch Ystwyth yng Nghanolfan y Celfyddydau ddd

22 Nos Sadwrn Cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas y Penrhyn. Gŵr gwadd: Jim O'Rourke

22 Nos Sadwrn Miri Mawr gyda Dylan Morris, Dylan a Neil yng nghwmn Dilwyn Ewards yn Llety Parc, Aberystwyth am 8.00. Holl elw'r noson tuag at Glwb Strôc Aberystwyth

## Cyfeillion Y Tincer


Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Ionawr 2025

**£25** (Rhif 118) Elwyna Davies, Tyncwm, Capel Dewi
**£15** (Rhif 184) Morris Morgan, Bwthyn, Penrhyn-coch
**£10** (Rhif 41) Meinir Chambers, Garn Isaf, Bow Street

Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch wybod i'r trefnydd Bethan Bebb **01970 880 228** neu ar ebost **bethanbebb162@gmail.com**

## RHODDION

Mae **Sian Spink** wedi dychwelyd rhodd o £15 a enillodd gyda'r Cyfeillion i'r Tincer




**D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau**

Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad

Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ

Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com

**Aberystwyth 01970 615328**
**Penrhyn-coch 01970 820249**
**Machynlleth 01654 700006**


YTincer@googlemail.com

## 30 mlynedd yn ôl



Angharad Fychan, Cadeirydd Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont a'r cylch yn cyflwyno siec am £721-28 i gynrychiolwyr o't chwe ysgol feithrin yn nalgylch y Clwb, sef yr arian a gasglwyd gan yr aelodau wrth ganu carolau yn ddiweddar. O'r chwith i'r dde: Sian James, Trefeurig; Beti Daniel, Pen-llwyn; Linda Tracey, Rhydypennau; Mrs Hogg, Llangynfelyn; Angharad Fychan; Mair Nutting, Tal-y-bont Rhiannon Richards, y Borth. Llun: Robert Parry Jones (O'r *Tincer* Chwefror 1995)

## Cyngor Cymuned **Melindwr**

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau Ionawr 16 gyda'r Is- gadeiryd Tom Holt yn y gadair. Croesawodd bawb i gyfarfod cyntaf 2025.

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Mis Tachwedd 2024 fel rhai cywir.

Roedd y clerc wedi derbyn sawl llythyr / ebost yn gofyn am gyfraniad ariannol. Eleni cytunodd y Cyngor i gefnogi *Y Tincer*, *Y Ddolen*, Sioe Capel Bangor, Merched y Wawr Melindwr, Clwb ar ôl Ysgol a Chymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Pen-llwyn, Guild Cwmrheidol ac Aberffrwd, Yr Urdd Ceredigion ac Ambiwlans Awyr Cymru. Rhannwyd cyfanswm o £2,000

Yn ystod y cyfarfod trafodwyd diffyg mynediad i'r We yn y Neuadd, dim graeanu y ffyrdd bach a'r effaith mae hyn yn gael ar bobl y gymuned a stad rhai o'r ffyrdd cefn a gofynnwyd i'r clerc i gysylltu â clic Ceredigion ynglŷn â'r tyllau ar y ffyrdd yma.

Mae yna sedd wag ar y Cyngor, os oes gan rhywun ddiddordeb yn ymuno â Cyngor Cymuned Melindwr cysylltwch â'r clerc neu un o'r cynghorwyr.

Cynhelir cyfarfod mis Chwefror yn Neuadd Pen-llwyn Capel Bangor ar nos Iau 20fed am 7.30yh.

# PRYSURDEB PENWEDDIG

***Gweler y lluniau ar y clawr***

**Llwyddiant Cenedlaethol**
Llongyfarchiadau i Katie Whiteway a gafodd ei dewis yn aelod o garfan Pêl-droed dan 16 Cymru a deithiodd i Bortiwgal ar ddechrau'r mis, wnaeth chwarae rhan allweddol yn ei hymgyrch i drechu'r gwrthwynebwyr er mai colli oedd ei hanes y tro yma

**Ymweliad Amaeth â Fferm Peithyll** – hoffai'r Adran Amaeth ddiolch yn fawr iawn i Mr Dewi Jones, Innovis a'i staff am yr ymweliad buddiol iawn â fferm Peithyll yng Nghapel Dewi. Cafwyd cyfle da i ddyfnhau gwybodaeth a phrofiadau'r disgyblion am feysydd cyfredol ym myd amaethythiaeth.

**Rygbi**
Aeth merched Bl 7 i'w cystadleuaeth rygbi gyntaf a braf oedd medru rhoi'r cyfle i 26 o ddisgyblion a chreu dau dîm i herio Ysgol Aberaeron a Bro Teifi yn Aberaeron ar ddydd Gwener y 17ain o Ionawr. Mwynhaodd y merched eu profiad cystadleuol cyntaf gan gyrraedd y gêm derfynnol ac ond colli o 3 cais i 1.

Bydd tim Rygbi merched dan 16 yn teithio i Lanymddyfri ar ddydd Iau y 30ain o Ionawr i gystadlu yn rownd rhanbarthol y Sgarlets i geisio ennill eu lle yn y rownd Genedlaethol, dymunwn pob lwc iddynt.

**Cwis pop y Selar** – braf iawn oedd gweld pedwar tîm o ddisgyblion Penweddig yn cymryd rhan yn y cwis pop eleni fel rhan o ddathliadau'r Siarter iaith, y Selar a Dydd Miwsig Cymru. Llongyfarchiadau i dîm Pop-Weddig am ddod yn ail drwy Geredigion.

**Gweithdy Pobol y Cwm yn y Llyfrgell Genedlaethol** – profiad gwych i ddisgyblion Penweddig oedd cael cymryd rhan mewn gweithdy gyda staff ac actorion Pobol y Cwm yn y Llyfrgell Genedlaethol. Roedd y gweithgareddau yn paratoi'r disgyblion am ddyfodol yn y maes teledu a'r cyfryngau creadigol. Diolch yn fawr I bawb am y croeso yn y Llyfrgell Genedlaethol.






## CANLYNIADAU PÊL-DROED PENRHYN-COCH


*Chwefror*
8 Eilyddion Penrhyn-coch 1 Penparcau 4
11 Eilyddion Penrhyn-coch 3 Eilyddion Llanidloes 0

Tim 1af
**Cynghrair**
*Ionawr*
18 Penrhyn-coch 4 Prestatyn 2
25 Tref Dinbych 3 Penrhyn-coch 0

**Cwpan Cynghrair Gwasanaeth Gwaed Cymru**
24/25 - Adran Gogledd

*Chwefror*
1 Penrhyn-coch 5 Treffynnon 1

**Cynghrair**
8 Bangor 1876 1 Penrhyn-coch 1



## Goginan

**Diolch**
Mae Morfudd Ingram, Llygad y Glyn, yn ddiolchgar iawn am y blodau, cardiau a holl alwadau ffôn a dderbyniodd mewn cydymdeimlad ar farwolaeth ei chwaer Phyllis Lewis yn ddiweddar.

**Gwellhad Buan**
Dymuniadau gorau i Elfed Price, Troedrhiwcastell ar ôl bod yn Ysbyty Bron-glais. Deallwn eifod adref ac yn gwella bob dydd.

Un arall o'r ardal dreuliodd amser ym Mron-glais oedd Elen Williams, Penrhiwlas ac yn awr wedi ymgartrefu gyda'i brawd Arthur ym Mhlas Cwmcynfelin.

## Penrhyn-coch

**Suliau Horeb**
*Chwefror*
23 10.30 Beti Griffiths Oedfa deuluol
*Mawrth*
2 10.00 Oedfa undebol Morlan Pared Gŵyl Ddewi
9 10.30 Peter Thomas Oedfa gymun
16 10.00 Y Parchg Tom Evans yn Seion (Ab)
23 2.30 Peter Thomas ym Methel (Ab)
30 2.30 Peter Thomas

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Margaret Lile, Glan Ceulan, ar farwolaeth ei brawd Brian yn Llanilar.

Â Aled Rowlands, Nant Seilo ar farwolaeth ei chwaer Gwenda James, Taigwynion, Llandre.

Trist yw cofnodi marwolaeth Mr. David Meirion Jones ac ychydig ddyddiau wedyn ei briod Ann yng Nghartref Cwmcynfelyn.


**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Rhys a Ceri Haf Evans, 8 Garnwen, ar enedigaeth eu mab bach - Deio Prys Pugh Evans; brawd bach i Anna Mair.




**Ennill cadair**
Llongyfarchiadau i'r Parchg Judith Morris am ennill cadair Eisteddfod Chwilog 18 Chwefror- cerdd ar y testun 'Newid; - beirniad: Gerwyn Williams.

## Cymdeithas y Penrhyn

Ymgasglodd aelodau ar noson rewllyd o Ionawr. Wrth groesawu pawb, dywedodd ein Cadeirydd, Angharad Fychan, ei bod yn falch o weld cynulleidfa fawr, gan gynnwys wynebau newydd. Cyflwynodd yr awdur a darlithydd Rheinallt Llwyd gan nodi iddo hanu o Ardudwy er bod Ceredigion wedi'i fabwysiadu ers amser maith. Dywedodd fod ei sgwrs "Islwyn Ffowc Elis – cipolwg ar ei yrfa"yn arbennig o amserol oherwydd inni ddathlu canmlwyddiant ei eni mor ddiweddar.



Pwysleisiodd Rheinallt fod Islwyn Ffowc Elis yn llawer mwy na nofelydd Tynnodd sylw ei fod hefyd yn fardd, ysgrifwr, arlunydd a chyfansoddwr caneuon.

Ganed Islwyn yn nhŷ chwaer ei fam yn Wrecsam ac ymfalchïai o ddweud ei fod wedi cael ei eni mewn tŷ cyngor. Fe'i magwyd yn Nyffryn Ceiriog ac er iddo breswylio yn ddiweddarach mewn mannau ledled Cymru, dywedodd fod y ffin erioed yn ei waed.

Dywedodd Rheinallt fod personoliaeth Islwyn yn amlwg o'i ddyddiau ysgol. Yr oedd yn well gando osgoi cwmni plant eraill a chrwydro'r caeau ar ei ben ei hun. Dioddefai o fwlio yn yr Ysgol Sir yn Llangollen. Ar y llaw arall, mwynhaodd ei amser ym Mhrifysgol Bangor lle'r oedd yn aelod o gwmni'n perfformio mewn dramâu a nosweithiau llawen.

Aeth Islwyn ymlaen i Goleg y Bala, yn ôl dymuniad ei deulu, ond yr oedd agweddau o'r weinidogaeth yn gas ganddo, yn enwedig ymweld â phobl yn eu cartrefi. Rhoddodd y gorau i'r swydd ar ôl pum mlynedd. Cafodd gyfnod cynhyrchiol fel awdur ar ei liwt ei hun cyn ymgymryd â gyrfa "igam-ogam" yn gweithio fel darlledwr, gwleidydd a darlithydd.

Diolchodd y Cadeirydd i Rheinallt gan ddweud ein bod wedi mwynhau mwy na chipolwg ar yrfa Islwyn. Yr oedd ambell aelod o'r Gymdeithas wedi cwrdd ag Islwyn neu wedi astudio ei waith a heliwyd atgofion dros baned wedi'i baratoi gan Elen a Gwerfyl.

(Bu Islwyn Ffowc Elis yn annerch y Gymdeithas ym 1999 (Gol.))

Oherwydd dyddiaduron llawn mis Medi methwyd cynnal cyfarfod Medi eleni a phenderfynwyd cael cyfarfod ychwanegol yn Ebrill – rhwng y cinio a'r daith. Bellach gellir cyhoeddi mai y gwr gwadd yn hwnnw – ar Ebrill 16 fydd yr awdur a'r dramodydd Dafydd Llewelyn – uwch gynhyrchydd Pobol y Cwm a Casualty.

# Howard Evans, Maesyrefail - Teyrnged

Ganwyd Howard Evans ar y 10fed o fis Mawrth, 1945 yn 'Beech House' Penrhyn-coch. Mynychodd ysgol gynradd Penrhyn-coch ac yna'n ddiweddarach Ysgol Uwchradd Dinas. Tra yn ysgol Dinas, ei hoff bynciau ysgol oedd gwaith coed a gwaith metel ac yn sail a chychwyn i'r hyn â fyddai'n yrfa a gwaith iddo weddill ei fywyd gan ennyn ei ddiddordeb a'i ddawn i drwsio a llunio gyda'i ddwylo.


Ef fyddai'r cyntaf i gydnabod nad oedd mynychu ysgol ymhlith ei hoff bethau, mi fyddai Howard yn dal y bws ysgol o'r pentref yn y bore ond yn bur aml, ni fyddai'n cyrraedd iard yr ysgol am fod gwell ganddo ddianc i fferm gyfagos a bod allan yn yr awyr agored yn hytrach mewn ystafell ddosbarth ac wrth ei fodd yn helpu trin peiriannau, yn aredig a llyfnu. Byddai wedyn yn dal y bws ysgol nôl adref gan feddwl na fyddai neb callach nad oedd wedi mynychu'r ysgol y diwrnod hwnnw. Hynny yw nes i'r Pennaeth alw ei dad i mewn i'r ysgol i'w hysbysu o'r sefyllfa! Mae'n amlwg nad oedd y pynciau academaidd arferol yn mynd a'i fryd ac fe adawodd yr ysgol yn bymtheg oed. Ond fe lwyddodd ei gyfnod yn Ysgol Dinas ddwyn ei fantais hefyd gan mai yno y cyfarfu Howard â Mair am y tro cyntaf – yn berthynas â flagurodd flynyddoedd yn ddiweddarach yn uniad cariadus.

Yn y 1960au bu Howard yn gweithio gyda'i ffrind J.P yn gyrru loris a oedd yn cario tywod a llafur a phob math o nwyddau ar hyd ac ar led y wlad. Ac fe barhaodd eu cyfeillgarwch gydol y blynyddoedd. Pan aeth J.P ati i drefnu'r gorymdeithiau hen dractorau roedd Howard wrth ei fodd yn eu mynychu, yn arbennig yn ystod y blynyddoedd olaf hyn wedi ymddeol.

O dan ddylanwad John Evans, ei dad fe wnaeth Howard benderfynu'n gynnar yn ei yrfa taw gyrru loris a JCB's ddylai ef wneud i ennill cyflog a bu wrthu'n is-gontractio gan weithio i Gyngor Ceredigion am dros ddeugain mlynedd - yn trwsio hewlydd, dadflocio draeniau, adeiladu pethau- ac fe lwyddodd i droi ei law at y mwyafrif o bethau a ofynnwyd iddo wneud.

Roedd y deugain mlynedd a dreuliodd yn is-gontractio i'r cyngor yn rhai o flynyddoedd hapusaf ei fywyd ac roedd yn aml yn rhannu straeon doniol am yr hyn roedd ef a'i ffrindiau a'i gyd-weithwyr yn gwneud yn y cyfnod hwnnw. Roedd Geraint Hammer, Dai Llanddeiniol, Dicky Mint a Wil Pengelli yn ffrindiau da iddo ac yn aml yn destun y straeon hyn a dynnai wên i wyneb. Fe wnaeth Howard ymddeol o'i swydd yn 2011.

Mae Morwenna yn nodi yn ei theyrnged hardd i'w thad iddi gael ei geni yn Ysbyty Bron-glais yn 1982 a bu hi a'i thad yn driw a chlos gydol y blynyddoedd. Byddai ef, naill ai'n teithio i lawr i Dde Cymru i'w gweld hi, neu mi fyddai hithau'n teithio adref i Aberystwyth i dreulio amser gyda ef. Pan brynodd Morwenna ei thŷ cyntaf roedd Howard yno i sicrhau ei fod yn le cartrefol iddi gan ddefnyddio ei sgiliau a'i ddawn fel adeiladwr. Pan aeth hi i'r brifysgol yng Nghaerdydd, ac yn bell o adref, roeddent yn siarad a'i gilydd bob wythnos ar y ffôn ac yn cadw mewn cyswllt a'i gilydd yn gyson. Roedd ef bob amser eisiau'r gorau ar ei chyfer." Ac mae hwnnw'n adlewyrchu ei gariad tuag ati.



Yn 2004, ar ôl byw yn Llundain am flynyddoedd rhoddodd Mair hysbyseb yn y *Cambrian News* yn sôn ei bod yn symud nôl i ardal Ceredigion ac yn yn awyddus i wahodd hen ffrindiau ysgol i'w pharti pen blwydd yn 60 oed. Methodd Howard y parti gan nad oedd wedi gweld yr hysbyseb mewn pryd ond rhoddodd alwad ffôn i Mair ac fe wnaeth y ddau gyfarfod a'i gilydd dros baned o de a brechdanau ychydig wedi'r dathlu. Trodd y cyfeillgarwch yn berthynas gariadus a phriododd y ddau ym mis Hydref, 2023. Roedd Howard yn meddwl y byd o Mair ac roedd yn gwneud ei orau glas i ofalu amdani.

Treuliodd ei amser hamdden yn helpu pobl y pentref gyda 'odd jobs' ac ati, roedd deiliaid cymuned stad Maesyrefail yn hynod gymdogol ac roedd Howard wrth ei fodd yn eu cwmni ac yn barod ei gymwynas bob amser. Ymhlith ei hoff ddiddordebau oedd adfer hen dractor Fergie bach (1950) a brynodd oddi ar ei ffrind - Geraint Hammer ac fe ddaeth hwnnw a mesur o falchder a llawenydd iddo wrth ei yrru ar orymdeithiau i godi arian i elusennau adfer Neuadd y Penrhyn neu ei yrru i sioeau lleol. Roedd yn mwynhau mynd ar y 'tractor runs' gydag Alun Trawsnant a Geraint Hammer ynghyd â rhai o'i ffrindiau eraill. Bu hefyd yn tywys disgyblion Blwyddyn 6 Ysgol Penrhyn-coch o amgylch y pentref yn y treilar tu ôl i'r tractor bach wrth iddynt ddathlu diwedd ei siwrnai yn yr ysgol gynradd. Roedd Howard yn arfer addurno'i Fergie gyda balŵns ar gyfer yr achlysur ac roedd y disgyblion yn dwli ar hynny!

Bu hefyd yn torri gwair a thacluso'r fynwent yn Horeb gydol y blynyddoedd gyda'i beiriant torri gwair. Roedd e'n cymryd y swydd honno o ddifri a bob amser eisiau yn gwneud ei orau a hyd eithaf ei allu. Roedd Howard yn gymeriad annwyl ac roedd ganddo amser i bawb. Byddai pobl yn dod i'r tŷ yn aml yn gofyn iddo helpu gyda rhyw job fan hyn a fan draw a byddai byth yn dweud na. Byddai'n hoffi cwrdd â phobl lle bynnag byddai'n mynd ac wrth ei fodd yn rhannu sgwrs. Parhaodd yn berson heini a sionc gydol y blynyddoedd ac roedd yn hoff o gadw'n brysur drwy wneud pethau yn yr ardd neu yn ei garej. Roedd y nyrsys yn dwli arno gan iddo holi eu perfedd nhw am eu henwau ac o ble oeddynt yn dod, ac am yr hyn a oedd yn gyffredin rhyngddynt o ran adnabyddiaeth. Wrth i'r hen flwyddyn threiglo i'w therfyn bu farw'n dawel yn ysbyty Treforys ar Ragfyr y 30ain. Diolchwn i Dduw amdano a bydded iddo gysegru'r atgofion.

PMT

**Crynodeb o deyrnged Y Parchg Peter Thomas i Howard Evans a draddodwyd ar ddydd ei arwyl: Sadwrn,1af Chwefror, 2025 yn Horeb, Penrhyn-coch.**

YTincer@googlemail.com

## Cyngor Cymuned **Trefeurig**

Cyfarfu'r Cyngor **nos Fawrth, 19 Tachwedd 2024** yn Neuadd y Penrhyn gyda'r Cadeirydd, Richard Owen, yn y gadair. Roedd Mel Evans, Shân James, Dai Mason, Gwenan Price ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Clerc a'r Cynghorydd Sir.

Materion yn codi: Cynnal a chadw – roedd Aled Jones wedi chwistrellu'r chwyn oedd yn tyfu ar ochr y ffyrdd drwy'r pentref. Gofynnwyd i'r Clerc atgoffa Aled am wneud step i gyrraedd y fainc ar fanc Cwrt.

Sul y Cofio: adroddwyd fod nifer sylweddol wedi mynychu'r gwasanaeth wrth y Gofeb. Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc a Gwenan Price am wneud y trefniadau, a hefyd i Elsie Morgan, y Bwthyn, am wneud y dorch o babis gwynion.
Cyfarfodydd a fynychwyd: roedd Eirian Reynolds wedi mynychu cyfarfod o lywodraethwyr Ysgolion Penrhyn a Phen-llwyn. Roedd Gwenan Price wedi mynychu cyfarfod pwyllgor Neuadd y Penrhyn.
Gwar y Garth: roedd pryder nad oedd palmant cyflawn o Horeb hyd at stad newydd Gwar y Garth. Roedd palmant o fynedfa'r stad newydd hyd at Gysgod y Dderwen, ond dim palmant o'r fan honno hyd at Horeb, lle mae'r palmant sy'n dod i fyny o'r pentref yn terfynu. Roedd y Cyngor Cymuned wedi tynnu sylw at hyn lawer gwaith. Penderfynwyd anfon at y Cyngor Sir unwaith yn rhagor i bwysleisio pa mor bwysig yw hyn.

Cyfarfu'r Cyngor **nos Fawrth, 21 Ionawr2025** yn Neuadd y Penrhyn gyda'r Cadeirydd, Richard Owen, yn y gadair. Roedd Llywelyn Evans, Shân James, Dai Mason, Gwenan Price ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Clerc.

Materion yn codi: adroddwyd fod Aled Jones wedi gwneud gwaith da iawn yn sicrhau mynediad at y fainc sydd ger y llwybr ar fanc Cwrt. Doedd y gwaith ddim yn hawdd gan fod ochr y llwybr mor serth.

Archebiant: trafodwyd archebiant ('precept') y Cyngor Cymuned ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26 yn fanwl. Oherwydd fod y Cyngor yn gorfod derbyn rhai cyfrifoldebau oddi ar y Cyngor Sir, megis torri ochrau'r ffyrdd drwy'r pentref, ac oherwydd chwyddiant, penderfynwyd gosod yr archebiant yn £20,000.
Cyfarfodydd a fynychwyd: roedd Gwenan Price wedi mynychu cyfarfod olaf Cyfeillion Tregerddan. Gan fod y Cartref yn cau, gofynnwyd a oedd y Cyngor yn dymuno derbyn ei gyfraniad ariannol diweddaraf i'r Cartref (2024) yn ôl, ond penderfynwyd nad oedd y Cyngor am wneud hyn.

Cynghorydd Sir: roedd adroddiad llawn wedi'i dderbyn oddi wrth Caryl yn nodi'r materion yr oedd hi wedi bod yn ymwneud â nhw dros y cyfnod Tachwedd 2024 hyd Ionawr 2025.

Cyfethol aelod: Ar ddiwedd y cyfarfod penderfynwyd cyfethol Aled Jones yn aelod o'r Cyngor.


# Cronfa Cyfle i Bawb

Rhoi gwyliau i blant a phobl ifanc difreintiedig Cymru

Gyda bron un plentyn ym mhob tri yn byw mewn tlodi yng Nghymru, mae Cronfa Cyfle i Bawb yr Urdd yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael y cyfle i fwynhau gwyliau haf.
Bydd eich cyfraniad yn rhoi cyfleoedd a phrofiadau bythgofiadwy i blant yn un o Wersylloedd Haf yr Urdd.

Bydd rhodd o £220 yn cyfranu at weithgareddau, trafnidiaeth, llety, a bwyd i un plentyn yn un o wersylloedd haf yr Urdd. Drwy roi rhodd byddwch yn derbyn bathodyn pin arbennig a cherdyn post o'r gwersyll haf.

Rydym yn gwerthfawrogi pob cyfraniad, fawr neu fach.

"Rydym mor ddiolchgar i'r gronfa am allnogi fy mab i gymryd rhan mewn gweithgareddau bendigedig drwy gyfrwng y Gymraeg mewn awyrgylch ddiogel. Roedd yn wên o glust i glust trwy gydol gweddill y gwyliau."

- GOFALWR MAETH

Sut i wneud cyfraniad:

- Gwefan yr Urdd: urdd.cymru/cronfa
- Anfon siec yn daliadwy i Urdd Gobaith Cymru
- Ffonio gwersyll Llangrannog ar 01239 652140



Cyfrannwch heddiw

Urdd



## Colofn Elin Jones AS

Wrth i'r dydd dechrau ymestyn rydyn ni gyd mae'n siwr yn edrych ymlaen i fwynder y gwanwyn ac am fwy o olau dydd, a gobeithio fod y tywydd mwyaf gwyllt wedi pasio. Mae stormydd y gaeaf wedi bod yn arw iawn eleni, ac er bod rhai dal i gael trafferthion yn adfer eu bandllydan, mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau wedi eu hadfer erbyn hyn. Os ydych yn parhau i gael trafferthion, cysylltwch â'm swyddfa os gwelwch yn dda, a gallwn geisio eich cynorthwyo. Mi wnaeth Storm Darragh yn enwedig amlygu ein dibyniaeth gynyddol ar drydan yn ein cartrefi a'n bywyd dyddiol, a bydd angen buddsoddiad i gryfhau ein hisadeiledd trydan a bandllydan wrth i ni drosi ein cartrefi a'n ceir fwyfwy i drydan.

Mae dyfodol rhai o'r gwasanaethau ym Mronglais a Glangwili eto dan fygythiad, yn enwedig gwasanaethau stroc, gyda'r posibilrwydd y gall cleifion stroc orfod symud i Llanelli ar gyfer rhaglen o driniaethau a chryfhau. Rwyf wedi bod yn codi pryderon am hyn gyda'r Bwrdd Iechyd a mi oedd hefyd yn braf i fod yn rhan o gyfarfod torfol yn Aberystwyth ar arbed gwasanaethau ym Mronglais. Bydd tipyn o waith i wneud nawr i ddarbwyllo'r Bwrdd Iechyd i gynnal a gwella y gwasanaethau stroc ym Mronglais.

Roeddwn yn falch o'r cyfle i allu cefnogi protest ar risiau'r Senedd mis yma, yn galw ar Lywodraeth Cymru i helpu sicrhau dyfodol Prifysgol a thref Llambed. Fues i a Cefin Campbell AS yn cadw cwmni i nifer o gyn-fyfyrwyr, ffrindiau'r brifysgol a thrigolion o Lambed sydd hefyd yn gobeithio bydd y Brifysgol a'r Llywodraeth yn sylweddoli pwysigrwydd eu cyfrifoldeb i sicrhau dyfodol i'r campws a'r dref. Mi rydw i'n gobeithio y bydd y Brifysgol yn trefnu cyfarfod cyhoeddus yn y dref cyn hir i drafod dyfodol campws Llambed.

Mae'n gyfnod prysur a heriol i nifer o sefydliadau a gwasanaethau allweddol yng Nghymru a Cheredigion, gyda'u cyllidebau yn dynnach nag erioed. Mae'r setliad gan Lywodraeth Cymru i Gyngor Ceredigion unwaith eto yn is na'r cyfartaledd, ac mi rydw i'n pwyso ar y Llywodraeth am fwy o gynydd ariannol i gynghorau gwledig fel Ceredigion. Mae cynnal gwasanaethau mewn ardaloedd llai poblog ar y cyfan yn fwy drud yn gyffredinol, ac mae'r boblogaeth is mewn siroedd gwledig fel Ceredigion, yn golygu eu bod yn derbyn llai o gyllid sylfaenol gan y Llywodraeth na awdurdodau lleol mewn ardaloedd mwy poblog.

Cofiwch gysylltu os ydych eisiau unrhyw gefnogaeth neu rannu barn gyda fi. Mae croeso i chi anfon ebost ataf (elin.jones@senedd.cymru) neu gysylltu â'm swyddfa i drafod ymhellach (01970 624516).

## Dôl-y-bont

**Brysiwch wella**

Anfonwn ein cofion at Rachel Rowlands, Brynllys. Bu Rachel yn derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Treforus yn ddiweddar, ond yn gwella adre erbyn hyn.

**Dewis i dîm Academi Cymru**

Llongyfarchiadau i Gruffydd Sedgewick, Tynsimdde a fu yn ddigon lwcus i gael ei ddewis i chwarae pêl-droed i dîm Academi Cymru dan 15 oed yn erbyn tîm Dinas Caerdydd yn ddiweddar. Da iawn Gruffydd.

## Clarach



**Ar y ffordd i Iwcrain**

Ar ôl clywed am ddewrder Jennifer Jenkins yn mynd â'r cwiltiau, meddygyniaeth a pheiriannau i helpu pobl Iwcrain penderfynodd Dewi a Jane James gyfrannu generator iddi i fynd gyda hi'r tro nesaf y bydd yn mynd â nwyddau draw yno. Bydd o ddefnydd i'r bobl yno sydd yn colli eu pwer yn eu cartrefi yn aml wedi'r bomio.

Probert & Williams eye care
Eich optegwyr annibynnol lleol
Arholiadau GIG a phreifat
Sbectol a sbectol haul
Lensys cyffwrdd
Gofal llygaid brys
Llygaid sych
15 Stryd y Popty, Aberystwyth
01970 611555
www.probertandwilliams.co.uk
OPTICIAN AWARDS
ZEISS
Cymraeg

Trydan WILL DAVEY Electrical & AV
- Gosodiad Trydanol Ardystiedig
- CCTV a AV
- Arolygu & Phrofi
- Pŵeru cerbydau trydan
- Gosod PV solar
GWYNFA, PISGAH, ABERYSTWYTH, SY23 4NE
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
07581 173 684 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey

# Dydd Mawrth Crempog a'r Ynyd

Eleni, 2025, dethlir yr Ynyd rhwng 2 Mawrth a Mawrth 4ydd a dydd Mawrth Crempog (neu Ddydd Mawrth Ynyd fel y'i gelwir yn ogystal) yn syrthio ar Fawrth 4ydd. Dydd Mawrth Crempog yw'r diwrnod o flaen Dydd Mercher y Lludw yn y calendr Cristnogol. Daw'r gair Cymraeg 'Ynyd' o'r gair Lladin *initium* ('cychwyn'), cyfeiriad at agosáu'r Grawys. Fe'i gelwir yn *Mardi Gras* mewn llawer o wledydd Catholig, sef "Dydd Mawrth Tew", gan ei bod yn arfer bwyta bob math o fwydydd bras a danteithion cyn dechrau ar y carnifal lliwgar blynyddol. Wedi'r elwch y deuai'r tawelwch gyda gwasanaethau eglwysig dwys Dydd Mercher y Lludw pan dynnir croes ludw ar dalcen y ffyddloniaid gan yr offeiriad fel arwydd o edifeirwch. Arfer cyffredin yn nefodau'r Iddewon gynt. Yr oedd yr Eglwys yn y Canol Oesau yn cadw ympryd deugain niwrnod cyn y Pasg, sef Y Grawys, i goffáu ympryd a themtiad Crist yn y Diffaethwch. Roedd y Grawys yn cael ei gymryd o ddifrif calon ac yn ôl gofynion yr Eglwys roedd yn rhaid i'r ffyddloniaid ymwadu rhag bwyd maethlon er mwyn canolbwyntio ar baratoi eu meddyliau; 'ymadroddion eu genau a myfyrdod eu calonnau' yn ogystal â'u cyrff, 'y temlau sanctaidd' ar gyfer defodau dwys





Y Groglith. Ni chynhwysid y Suliau cyn y Pasg yn yr ympryd ac felly dechreuai'r ymprydio ar ddydd Mercher – Dydd Mercher Lludw

Felly, cyfnod yw'r Ynyd i fwyta gweddillion bwyd a waherddid yn ystod Y Grawys a hefyd dathlu ... cael parti mawr cyn y dyddiau blin. Pwy sydd heb glywed am ddathliadau lliwgar y Mardi Gras yn Sydney, Rio neu New Orleans? Mae'r '*gras*' neu saim yn dal yn rhan o'n dathliadau ni yng Nghymru er bod y lard yn gyndyn o ymddangos yn ein dyddiau iach ni! Ac mae'r dyddiad hwn yn dal i weld pobl Ceredigion yn estyn am eu padelli ffrio i wneud crempog.

Yn draddodiadol gwaherddid wyau, lard neu saim, menyn, llefrith ac wrth gwrs cigoedd yn ystod Y Grawys. Nid fel heddiw pan fo'r Grawys yn gyfle i beidio bwyta siocled am 40 niwrnod hwyrach! Gwamalu yw hyn debyg … ond mae'r oes ac yn sicr crefydd wedi newid wrth gwrs! Rhoddid cig weithiau yn y grempog yn y gorffennol. Yng ngogledd Lloegr gelwid dydd Llun yr Ynyd yn *Collop Monday* – y dydd olaf i fwyta cig cyn Y Grawys.

Roedd hwn yn hen draddodiad wrth gwrs ond pylu gwnaeth y diddordeb yn ystod y ganrif ddiwethaf. Sonnir fel y byddai trigolion yr wyrcws yn cael eu troi allan ar ddydd Calan a dydd Mawrth Crempog i fynd i hel – fel rheol, yn ôl y dystiolaeth, cawsant lond eu boliau ... ac mae crempog yn llenwi boliau gwag neu'n gwneud i rywun deimlo'n llawn beth bynnag. Roedd boliau llawn yn arbed arian i reolwr yr wyrcws yn ogystal!

Ceir cyfeiriadau at wneud crempog:

*Dydd Mawrth Ynyd*
*Crempog bob munud*

Ceir sawl cyfeiriad yng ngogledd Cymru at blant yn 'blawta a blonega', sef hel blawd a saim er mwyn gwneud crempog. Mae rhai o'r rhigymau sy'n gysylltiedig â hel crempog … y rhai fyddai plant yn eu llafarganu ar y rhiniog unwaith y byddant wedi cael y perchennog i ateb y drws … yn dal yn gyfarwydd megis hon:

*Wraig y tŷ a'r teulu da*
*A welwch chi'n dda roi crempog?*
*A lwmp o fenyn melyn mawr*
*Fel 'raiff i lawr yn llithrig (sic);*
*Os ydych chwi yn wraig led fwyn,*
*Rhowch arni lwyn o driog.*
*Os ydych chwi yn wraig led frwnt*
*Rhowch arni lwmp o fenyn;*
*Mae rhan i'r gath, a chlwt i'r ci bach*
*A'r badell yn grimpin grempog!*


*Cyfarwyddwyr Angladdau*
**C. T. Evans**

*Perchnogion : Gwyn & Janet Evans*
*Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY23 5BS*

*Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn.*
*Wedi ei arwain yn Bersonol gyda Urddas.*
*Capel Gorffwys Preifat,Gwasanaeth Ddydd a Nôs.*

*Ffôn 01970 820013*
*ebost : gwyn@ ct-evans.com*


YTincer@googlemail.com

# Cylch cinio

Ar noson oer o Ionawr daeth criw da o aelodau y Cylch Cinio ynghyd i gyfarfod cyntaf y flwyddyn. Cawsom ein croesawu gan ein Cadeirydd yr Athro Geraint Vaughan wrth iddo ddymuno blwyddyn newydd dda i bawb. Ein gŵr gwadd ar y noson oedd Phil Thomas neu Phil y Fet/ Phil y Garej fel mae nifer yn ei adnabod. Cafwyd sgwrs hynod o ddiddorol ganddo. Dechreuodd Phil ei yrfa wrth astudio yng Ngholeg Milfeddygaeth Brenhinol Llundain. Bu Phil a'i wraig Kate yn gweithio yn Cambodia am dair blynedd yn datblygu gwasanaethau milfeddygol yn Mattambang . Ar ôl dychwelyd i Brydain bu yn gweithio mewn amryw o filfeddygfeydd cyn penderfynu dod nôl i Aberystwyth ac ymuno â Milfeddygfa Ystwyth yn Llanbadarn Fawr lle bu yn bartner ac yn hwyrach yn gyfarwyddwr y cwmni . Un ffaith ddiddorol pan oedd Phil yn astudio oedd fod y nifer o ferched a bechgyn tua yr un peth ond erbyn heddiw mae tua 80-90 y cant o ferched yn astudio milfeddygaeth.

Da deall erbyn hyn bod cwrs yn Mhrifysgol Aberystwyth lle mae modd i fyfyrwyr astudio milfeddygaeth. Dywedodd Phil





Dyma rigwm a boblogwyd gan Gymru'r Plant, rhigwm a gasglwyd o'r traddodiad llafar ond a olygwyd ar gyfer ei chyhoeddi. Daeth y rhigwm yn enwog ac felly'r gampwraig grempog Modryb Elin Enog a oedd yn enw cyfarwydd ar aelwydydd Cymru yn y gorffennol:

**Modryb Elin Enog**
Os gwelwch chi'n dda gai'i grempog?
Cewch chithau de a siwgr brown
A phwdin lond eich ffedog
Modryb Elin Enog
Mae 'ngheg i'n grimp am grempog
Mae Mam rhy dlawd i brynu blawd
A Siân rhy ddiog i nôl y triog
A ,nhad rhy wael i weithio
Os gwelwch chi'n dda ga'i grempog


Fel y dirywiodd yr arfer cedwid y rhigymau ar dudalennau cylchgronau megis Cymru'r Plant ond dim sôn am sut y defnyddid hwy yn wreiddiol. Newidiwyd beth arnynt i'w gwneud yn fwy deniadol. Cofnodwyd y rhigwm hwn yng ngogledd Ceredigion tua 1890:

*Os gwelwch chi'n dda gai'i grempog,*
*Os nad oes menyn yn y tŷ*
*Gai'i lwyad fawr o driog.*
*Mae mam rhy dlawd i brynu blawd*
*A nhad rhy ddiog i weithio.*

Soniodd Lewis Morris (yn y 18fed ganrif) am blant sir Fôn yn cyrraedd adref yn hwyr yn y bore – ni ddylid hel crempog, na hel Calennig ar ôl hanner dydd wrth gwrs – a'u hwynebau'n drwch o saim a thriog o'u safnau hyd eu clustiau!

Heddiw mae gwneud crempog yn dal yn draddodiad ac wele, yn y siopau lleol, - heb enwi'r un - ceir bargen, dau baced o gymysgfa i wneud crempog am bris un. Pwy fasa'n meddwl am wneud crempog allan o baced a dim ond angen ychwanegu dŵr neu lefrith? Tyda ni wedi mynd yn ddiog! Mae'r amser wedi newid ond mae'r grempog yr un mor flasus. Y gamp fwyaf wrth gwrs yw *fflipio'r* grempog ... ei thaflu o'r badell i'r awyr a'i chael i droi a glanio'n ôl yn ddiogel yn y badell a'i phen i lawr. Mae pob plentyn a phob plentyn hŷn wrth eu boddau efo'r gamp hon! Beth am gael cystadleuaeth fflipio crempog ... mae rhain yn boblogaidd bellach ac yn ddull i godi arian at elusen neu jyst fel dipyn dipyn o hwyl!

**Tecwyn Vaughan Jones**



Yr un mor draddodiadol yw ryseitiau crempog. Gelwir y grempog Gymreig draddodiadol heddiw yn

4 owns o flawd plaen
Pinsiad o halen
1 ŵy
Hanner peint o lefrith
Lard ar gyfer ffrio (os meiddiwch!)

**Offer**:
Padell ffrio fach
Chwisg
Plât

1. Rhidyllwch y blawd a'r halen i mewn i fowlen.
2. Curwch yr wy a'r llefrith.
3. Yn raddol, ychwanegwch yr wy a'r llaeth at y blawd. Curwch yn dda.
4. Cymysgwch nes y bydd gennych gytew (*batter*) llyfn. Defnyddiwch y chwisg i wneud hyn.
5. Toddwch ychydig o lard (neu olew erbyn hyn) mewn padell ffrio. Gofalwch nad oes gormod o saim.
6. Tolltwch ychydig o'r cytew i'r badell gan wneud yn siŵr fod y cytew yn gorchuddio gwaelod y badell. Coginiwch am 1-2 munud nes i'r grempog setio. (Gellir ychwanegu cwrens wrth goginio'r ochr gyntaf.) Defnyddiwch gyllell balet i ryddhau'r ochrau. Trowch y grempog drosodd, trwy ei fflipio i'r awyr os medrwch!
7. Coginiwch eto am 1-2 munud. Trowch y crempogau ar blât cynnes ac ychwanegwch sudd lemwn a siwgwr yn ôl y gofyn

bod y criw o fyfyrwyr cyntaf oedd wedi cofrestru ar y cwrs yn gorffen eleni. Mae Phil hefyd yn aelod o dim Talwrn Tal-y-bont ac ysgrifennodd englyn coffa i ddathlu agoriad yr Ysgol Filfeddygol yn Aberystwyth. Gwelir plac coffa gyda'r englyn isod yn y Ganolfan Addysg Filfeddygol.

Yma trig gweledigaeth, yn aelwyd
coleg milfeddygaeth.
Nid fe ddaw, ond fe a ddaeth
ein goriad i ragoriaeth.

Rydym yn edrych ymlaen i gael cwmni Phil fel aelod o'r Cylch Cinio fel ei ddiweddar dad - sef Elwyn Thomas, Garej Rhydypennau oedd yn aelod selog o'r cylch.

Talwyd y diolchiadau gan y Cynghorydd Gareth Davies, Llanbadarn a chyfeiriodd bod yn dda fod Milfeddygfa Ystwyth wedi ei sefydlu yn Llanbadarn a'i rhoi ar y map. Enillydd y raffl ar y noson oedd Sion Griffiths. Bydd y Cylch yn cwrdd yng Ngwesty y Pedwar Tymor y mis nesaf. Croeso i aelodau hen a newydd. Am ragor o fanylion cysylltwch ag unrhyw aelod o'r Cylch neu Huw Williams, Ysgrifennydd ar huw_williams1@btinternet.com

Diolch i Richard a staff y Richmond am eu croeso ac am ddarparu swper blasus ar y noson ar ein cyfer.




**Gareth Davies, Phil Thomas, a Geraint Vaughan.**

## Aber-ffrwd a Chwmrheidol

**Urdd y Gymuned**
Diolch yn fawr i bawb a aeth allan i ganu carolau o amgylch yr ardal cyn y Nadolig. Casglwyd £190.00 sydd wedi ei ddanfon i Ambiwlans Awyr Cymru. Diolch i bawb am bob cyfraniad. Cynhaliwyd ein cinio blynyddol yng Ngwesty'r Pedwar Tymor yn Aberystwyth. Cafwyd noson hwyliog iawn a bwyd bendigedig.

**Cofio Carwyn**
I'r anabl
Hoffwn fel teulu ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd i gronfa er cof am Carwyn. Casglwyd y swm anhygoel o £2795.00. Mae yr arian wedi ei rannu yn gyfartal rhwng Adran Damweiniau Brys Ysbyty Bron-glais a Ser Aber, Clwb pêl-droed i'r anabl yn Aberystwyth, Diolch hefyd i aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Trisant a gyfrannodd £700.00 i Gateway Aberystwyth er cof am Carwyn. Rydym mor ddiolchgar fod cymaint yn cael ei wneud i gofio amdano.



Cerddwyr Rhydypennau - taith drwy'r coed ar ochr ogleddol Cwmrheidol

## Merched y Wawr Melindwr

Penderfynwyd gael cyfarfod mis Chwefror yn y prynhawn pryd y daeth Claire Fowler o Dal-y-bont i ddangos i ni sut i greu ategolion drwy ailgylchu. Mae hi yn prynu llawer o ddillad o Siopau Elusen ac yn creu bagiau hyfryd a theganau gan ddefnyddio pob rhan o'r dilledyn. Mae yn gwerthu ei chynnyrch ar y we ac maent yn mynd i bob rhan o'r byd. Diolchodd ein Llywydd Lynne yn gynnes iddi a chafwyd lluniaeth wedi ei baratoi gan Eirlys Davies a Eirwen Mcnulty. Llongyfarchiadau i Lynne a ddathlodd ben blwydd arbennig yn ddiweddar.



# Hela Calennig yn Penrhyn Isaf yn gynnar yn y chwedegau



Rhes gefn: Bethan Thomas, Avril Davies, Sandra Thomas.
Rhes flaen: Meinir Jones, Madelein Huws, a Caris Edwards.
Tynnwyd tua 1963 neu 1964. Llun o gasgliad Florrie Hamer

Annwyl Olygydd,
Erthygl ddiddorol ar Hela Calennig yn rhifyn Ionawr Cofiaf yn dda fy mrawd a minnau'n codi ar doriad y wawr ac yn ymuno â'r plant eraill ar ein taith o amgylch y pentref. Yng nghyfnod fy mhlentyndod cynnar yn y pumdegau i'r chwedegau cynnar, roedd y pentref yn llawer llai nag y mae ar hyn o bryd a byddai llwybr ein taith wedi ei weithio allan y noson cyn ein hantur.

Byddai mam yn gwnïo bag llinyn cotwm taclus, yn aml wedi ei wneud o weddillion llenni, a byddai'r cyfraniadau yn cael eu gosod ynddo. Dyma'r pennill a fyddwn yn adrodd neu ganu ym mhob tŷ.

Dydd Calan cynta'r flwyddyn
rwy'n dyfod ar eich traws
I ofyn am y geiniog neu chlwt o fara caws.
Dewch i'r drws yn siriol heb newydd dim o'ch gwedd,
Cyn daw Dydd Calan nesaf
bydd llawer yn y bedd.

Blwyddyn Newydd Dda i chi, ac i bawb sydd yn y tŷ.

Byddai rhaid stopio yn llym am hanner dydd a bydden ni'n rhuthro adref i gyfrif ein cyfoeth newydd ar fwrdd y gegin, wrth gael ein holi gan dad i weld beth oedd maint y cyfraniad yn rhai o'r ffermydd cyfoethocach.

Roedd arferiad arall yn y pentref a oedd yn darparu arian poced ychwanegol, hyn yn digwydd pe bai priodas yn Horeb. Pan adawodd y briodferch a'r priodfab y capel, byddem ar y ffordd gyda rhaff a'i dal ar draws y ffordd i atal y briodferch a'r priodfab rhag gadael am y derbyniad. Byddai disgwyl iddynt ateb trwy daflu darnau arian allan o ffenestr eu car ac ar dalu'r pridwerth hwn byddem yn gostwng y rhaff a gadael iddynt basio.


Cofion cynnes am amser hapus.
Yr eiddoch yn gywir
Brian Davies
Abertawe

# Llandre

**Cyrtiau Tennis Llandre**
Mae'r gwaith i adnewyddu Cyrtiau Tennis Llandre bron wedi'i gwblhau ar ôl adeiladu ffensys newydd a gosod wyneb chwarae newydd sbon. Ar ôl sicrhau nawdd gan CFfGDU, 'Cynnal Y Cardi', 'Arian i Bawb' y Loteri, a gyda chymorth cyfraniad Cyngor Cymuned Geneu'r Glyn yn ystod haf 2024, cychwynnodd y gwaith ar y safle ganol mis Hydref. Bydd y gwaith sy'n weddill i osod gorchudd lliw acrylig ar y cyrtiau a marcio'r llinellau yn dilyn yn gynnar yn y gwanwyn, gan ddibynnu ar y tymheredd uwch a ddaw yn sgîl tywydd mwyn. Mae gwaith ar waliau allanol, sy'n cynnwys eu paentio, hefyd i ddechrau yn fuan fel gall y mireinio terfynol i wyneb y cyrtiau gwblhau'r prosiect. Bydd y gofod yn parhau ar gau i'r cyhoedd nes bod y gwaith hwn wedi'i gyflawni, a'r prosiect wedi'i gwblhau'n llawn.

Ychwanegodd Cadeirydd Cyngor Cymuned Geneu'r Glyn Peter James, 'Cawsom ein bendithio â phythefnos o dywydd braf yn ystod mis Hydref a alluogodd y contractwyr i fwrw ymlaen a gwneud cynnydd gwych – bellach mae 90% o'r gwaith wedi ei gyflawni. Croeswn ein bysedd am fwy o dywydd ffafriol yn gynnar yn y gwanwyn fel y gellir cwblhau gweddill y gwaith, ac ailagor y cyrtiau i'r gymuned oll eu mwynhau. Byddwn yn parhau i weithio gyda Tennis Cymru a We Do Tennis i drefnu gweithgareddau tennis yn Llandre, er mwyn elwa cymaint â phosib o'n buddsoddiad yn yr ased cymunedol pwysig hwn. Hoffwn ddiolch unwaith eto i'n partneriaid ariannu, yn enwedig tîm Cynnal Y Cardi a oedd yn wych cydweithio â nhw, ac i gyd-aelodau'r Cyngor Cymuned am eu cymorth yn gwireddu'r prosiect hwn.'





**Cydymdeimlad**
Tra'n croesawu Erddyn James, Lluarth, Taigwynion, adref o'r ysbyty, estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag ef, a'r meibion Penri a Llyr, a'r teulu i gyd, ar farwolaeth Gwenda, ei wraig, ym mis Ionawr. Ar 22 Ionawr. Cynhelir yr angladd yng Nghapel y Garn dydd Gwener 28 Chwefror am 1.30.

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
07813 338647

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111
james.memorials@btconnect.com

Arbenigwr glanhau popty a charped
Phil 07534 213229
cwtch.mw@outlook.com
PRO-TEK CLEANING SOLUTIONS

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

R.J Edwards a'i Fab
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

# Capel Bangor / Pen-llwyn

**Suliau Capel Pen-llwyn**

*Chwefror*

23 5.00 Y Parchg Carwyn Arthur

*Mawrth*

2 10.00 Mrs Bronwen Morgan
9 I'w drefnu
16 2.00 Dr Rhidian Griffiths
23 2.00 Dr John Tudno Williams
30 I'w drefnu

**Yn yr Ysbyty**

Dymunwn wellhad buan i Mr. Gerald Ingram, Sunnycroft, sydd ar hyn o bryd yn Adain Bwa o Ysbyty Bron-glais, yr adeilad sydd wedi ei leoli yn Hafan y Waun, Waunfawr. Hyderwn y byddwch adre yn fuan iawn yn teimlo lawer yn well. Cofion cynnes atoch.

**Cydymdeimlo**

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mr. a Mrs. Wynne Jones, Tangaer wrth iddynt golli modryb o Gaerfyrddin yn ddiweddar, roeddem yn gyfarwydd ar glywed cyfarchion i wraig oedrannus yma ar raglen 'Ar eich Cais' ar nos Sul gan ei bod hi a'i diweddar briod yn gyfarwydd iawn â Rhys Meirion, a'i fod ef yn ymwelydd cyson â hwy yn eu cartref yn nhref Caerfyrddin. Dymuniadau gorau i Eleanor ar ddathlu pen blwydd arbennig y mis hwn, ble mae'r blynyddoedd wedi mynd dwedwch!!

Cydymdeimlwn yn ogystal â Mr. a Mrs. Michael Over, Rhianfa wrth iddynt golli chwaer yn Chippenham. Treuliodd Valerie Davies ei hieuenctid yma ym Mhen-llwyn cyn priodi â Gwynfor Davies a gwneud eu cartref yn Bow Street. Coffa da amdani.

## Chwarae dros Gymru

Llongyfarchiadau calonnog i Deian Gwynne, Tynffordd, ar gael ei ddewis i chwarae rygbi dros dîm Ieuenctid Cymru. Bu Deian yn chwarae yn erbyn tim Ffrainc y penwythnos o'r blaen ond yn anffodus colli fu ei dynged yn y gêm honno ond y penwythnos yma ennill yn erbyn yr Eidal a Deian yn cael ei enwi ar sawl achlysur. Rydym yn gyffrous iawn bod un a fu yn ddisgybl yn Ysgol Gynradd Pen-llwyn wedi cyrraedd y brig ym myd y bel hirgron, pob dymuniad da i'r dyfodol, efallai y byddi yn gaffaeliad mawr i'r tîm hyn gyda hyn.




Trist hefyd oedd deall am farwolaeth Mr. Brian Williams, Waunfawr. Bu Mrs. Mairwen Williams, ei briod hawddgar, yn dysgu am flynyddoedd lawer yn Ysgol Gynradd Pen-llwyn. Cydymdeimlwn â hi a'r teulu estynedig yn ei colled a'i hiraeth.

**Marwolaeth**

*Cofio Joseph Evans*

Pe byddech wedi arfer teithio'n gyson ar hyd ffordd Cwmrheidol, byddech wedi dod i arfer gweld gŵr byr o gorff yn cerdded, ymhob tywydd, gyda'i gi Jack Russell bychan. Joseph Evans, Joe i bawb o'i gydnabod, oedd y gŵr hwnnw ar ei daith foreol o Deras Melindwr, Capel Bangor i fyny'r cwm.

Daeth tyrfa luosog ynghyd i wasanaeth angladd Joe ar yr 8fed o Chwefror. Cynhaliwyd y gwasanaeth cyhoeddus yn Eglwys Dewi Sant cyn gwasanaeth preifat ym mynwent Trisant. Yn Ffair-rhos a Phontrhydfendigaid y treuliodd Joe ei flynyddoedd cynnar cyn symud i Lanilar ac yna ymsefydlu yng Nghapel Bangor weddill ei oes. Treuliodd oes o wasanaeth, yn gweithio am oddeutu 40 mlynedd yng Nglanrheidol, Capel Bangor. Yma yn y pentref y crewyd aelwyd, wedi iddo briodi â'r ddiweddar Glenys; ac yn y pentref y magwyd eu plant John a'r ddiweddar Ann. Ac yma yn Nheras Melindwr y canfu eu hwyrion Leila a Keiran loches a thad-cu oedd yn ofalus ohonynt.

Yn ystod y gwasanaeth darllenodd y Parchg Heather Evans deyrnged hyfryd oedd wedi ei pharatoi ar ran y teulu gan ei wyres Leila. Soniodd am gadernid Joe ac am ei ofal ffyddlon dros ei deulu ar hyd y blynyddoedd. Ac yn y darlleniadau pwrpasol o'r Beibl a ddarllenwyd yn ystod y gwasanaeth, darllenwyd mai "Yr Arglwydd yw fy Mugail " a bod Iesu wedi datgan mai "Myfi yw'r Bugail Da. Ef yw'r Bugail sy'n ein harwain, heb ein gadael, hyd yn oed pan rodiwn ar hyd 'glyn cysgod angau.'

Gwelsom golli Joe a'i deithiau boreol ers misoedd bellach. Sioc i bawb oedd clywed am ei farwolaeth sydyn. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w fab John, Leila a Keiran, ei orwyron yr oedd mor falch ohonynt, ynghyd â'i deulu estyngedig.

R.W.J.

*Mrs. Phyllis Hammond*

Trist hefyd yw cofnodi marwolaeth sydyn Mrs. Phyllis Hammond, Troedrhiwlwba ar yr 21ain o Ionawr. Bydd yr angladd ar 24ain o Chwefror yn yr Amlosgfa, Aberystwyth. Cydymdeimlwn yn fawr â Alan ei phriod, Eifion ei brawd. Mair, Wyn a Trefor, ei chwaer a'i brodyr a'r holl gysylltiadau teuluol. Bydd teyrnged yn y rhifyn nesaf.

Cydymdeimlwn hefyd â Helen Lyall Williams ar farwolaeth ei nith - Caron Wyn Edwards ar 5 Ionawr yn Rhostryfan.

SIOP
SGIDIAU GWDIHW
8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
Shan ac Alys Jones
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodyddion /podiatryddion graddedig ac wedi cofrestru efo'r MRCPod

Croeso i deuluoedd
6 teledu gyda Sky Sports
Lle i eistedd tu allan a bwyty mawr
Bwrdd 'pool' a byrddau darts
Bwyty a Bwyd wedi'i gludo ar gael am ddim
TAFARN Y ROOSTERS
HOME OF/CARTREF I CPD PENRHYNCOCH FC
01970 828 992

# Enwau lleoedd

Angharad Fychan

Mae *Tirymynach* yn enw cyfarwydd i ni heddiw am gyngor cymuned ardal Bow Street, ond mae'n hen enw sydd â'i wreiddiau'n gysylltiedig â mynachlog Ystrad Fflur.





Roedd y sefydliad Sistersiaidd hwnnw'n berchen ar nifer o graensiau neu ddaliadau tir mynachaidd ar hyd a lled y wlad. Un o'r rhain oedd y *Dywarchen* neu *Dywarchen Penweddig* sef tiriogaeth y cofnodir iddi gael ei chyflwyno'n rhodd i fynachod Ystrad Fflur mewn siarter yn 1202.[1] Gwyddom ei bod yn ymestyn o'r Dolau hyd at gyrion Penrhyn-coch, ac o waelod pentref Bow Street i'r mynydd-dir yng nghyffiniau Craig y Pistyll.

Y *Cwrt*, i'r gogledd o Benrhyn-coch, oedd ei chanolfan weinyddol, a hynny'n dilyn patrwm cyffredin o enwi canolfannau mynachaidd yn *Cwrt*. Yno hefyd yr oedd melin y graens a yrrid gan ddŵr a ddargyfeirid o afon Stewi ar hyd *pynfarch* ('mill-race') a roddodd ei enw i *Dynpynfarch* gerllaw.

Wedi i Harri'r VIII ddiddymu'r mynachlogydd rhwng 1536 ac 1541, daeth tiroedd Ystrad Fflur i feddiant deiliaid newydd. Gwyddom fod graens y *Dywarchen* yn cael ei hadnabod hefyd fel *Tir y Mynych* mor gynnar â chanol yr unfed ganrif ar bymtheg, gyda *mynych*, un o ffurfiau lluosog *mynach*, yn gyfeiriad at ei chyn-berchnogion.[2]

Yr hyn sy'n syndod yw i'r graens barhau i gael ei hadnabod fel uned diriogaethol flynyddoedd maith wedi diddymiad mynachlog Ystrad Fflur. Pan aeth y perchennog newydd, Iarll Lisburne, Trawsgoed, ati i fapio'i thiroedd yn 1778, rhoddwyd i'r gyfrol fapiau y teitl 'Court Grange Estate', yn adlais o'r graens fynachaidd, a chan ddefnyddio enw'i chanolfan gynt:[3]




Ond nid *Tirymynach* yw'r unig enw sy'n cadw cof o'r cysylltiad mynachaidd lleol.

Rhestrir *Tythin dan Alt y Myneych* ymhlith rhai o ddaliadau graens y Dywarchen mewn dogfen o 1605-6,[4] a chyfeiria un o weithredoedd stad Trawsgoed at *Keven-tir-y-mynach* ym mhlwyf Llanfihangel Genau'r-glyn yn 1695.[5] Serch hynny, yn anffodus, ni wyddom leoliad yr un o'r ddau enw i sicrwydd.

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
**www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru**
a Geiriadur Prifysgol Cymru **https://www.geiriadur.ac.uk/**

1 *The Acts of Welsh Rulers 1120-1283*, ed. Huw Pryce (2005) 194 (55), *Y Tywarchen*.
2 LlGC GAB 3/1/3 (2), 1558/9, *tyre y mynyche or Dowarchen*.
3 Thomas Lewis, 'Court Grange Estate in the county of Cardigan belonging to the Rt. Honble. the Earl Lisburne', 1778 (LlGC): http://hdl.handle.net/10107/1446048.
4 T. I. Jeffreys Jones, *Exchequer Proceedings Concerning Wales* (1955) 95.
5 T. I. Jeffreys Jones, *Exchequer Proceedings Concerning Wales* (1955) 95.
6 Crosswood Deeds I. 597.

RHYD-Y-PENNAU
COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI
01970 867 888



## Bow Street

**Suliau**
**Capel y Garn**
**10.00**
*Chwefror*
23 Peter Thomas

*Mawrth*
2 Trefniant lleol
9 Ifan Roberts - rhithiol
16 John Tudno Williams
23 Rhidian Griffiths
30 Dim oedfa

**Suliau Noddfa**
*Chwefror*
23 Richard Lewis

*Mawrth*
2 Uno y y Garn
9 Richard Lewis. Cymundeb.
16 Carwyn Siddal
23 Richard Lewis
30 Karen Owen

**Pen-blwydd Hapus**
Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i Tom Corfield, 20 Maes Ceiro, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 90 ar y 9ed o Chwefror.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlir yn ddiffuant a Mrs Elizabeth Lloyd Jones, Maes Ceiro, ar farwolaeth cefnder iddi yn Nhrawsfynydd yn ddiweddar.

**Capel y Garn**
Bore Sul, 5 Ionawr, cynhaliwyd cyfarfod gan yr aelodau dan arweiniad Llinos Dafis, gyda nifer o'r gynulleidfa'n cymryd rhan. Y Parch John Tudno Williams fu'n arwain ein haddoliad fore Sul, 12 Ionawr, ac Alan Wynne Jones oedd yn gyfrifol am drefnu'r gwasanaeth ar 19 Ionawr, gyda chymorth aelodau gwaelod y pentref a'r cyrion. Ar 26 Ionawr cafwyd gwasanaeth cymun dan arweiniad y Parch. Judith Morris.

Daeth aelodau Cymdeithas y Chwiorydd ynghyd brynhawn Mercher, 8 Ionawr, i gael sgwrs a phaned ym mwyty Crefftau Pennau.

## Capel Noddfa



**Cyfeillach**
'Agor di ein llygaid, Arglwydd,
i weld angen mawr y byd...'

Mair oedd yn gyfrifol am y Gyfeillach ym mis Ionawr ac agorodd y cyfarfod gyda emyn W. Rhys Nicholas sy'n gofyn i ni agor ein calonnau a'n gwneud "yn gyson-hael" ac Arwel oedd yn cyfeilio. Yna, darllenodd Mair ran o Bennod 25 Efengyl Mathew ble mae'r Iesu yn annog ei ddilynwyr i helpu eraill.

Aeth Mair ymlaen i gyflwyno Jenny Jenkins a roddodd sgwrs ddiddorol ond ysgytwol i ni am y gwaith arwrol mae hi'n ei wneud yn helpu pobl Wcrain sy'n dioddef oherwydd ymosodiadau Rwsia.

Eglurodd Jenny y cymhelliad dros weithredu. Gweld adroddiadau ar y teledu o'r dioddef yn Wcrain yn dilyn ymosodiadau Rwsia wnaeth iddi benderfynu geisio helpu. Teimlai bod rhaid iddi wneud rhywbeth i helpu'r trueiniaid oedd yn dioddef. Daeth i gysylltiad â chriw o bobl yng Nghwmbrân yn gyntaf ac yn ddiweddarach â thîm o Lynebwy sy'n casglu nwyddau a'u cludo mewn tryciau yr holl ffordd i Wcrain. Rhai o'r pethau gwerthfawr a gludwyd yno yw generaduron i gynhyrchu trydan. Erbyn hyn mae Jenny wedi ymweld â gwlad Pwyl ddwywaith ac Wcrain wyth gwaith gan yrru tryc drwy Ffrainc, Gwlad Belg, Yr Almaen a Gwlad Pwyl cyn croesi'r ffin i'r Wcrain. Taith anodd sy'n cymryd tri diwrnod a hanner. Mae hi'n treulio tua deng diwrnod yn y wlad ac wedi teithio i'r brifddinas Kyiv ac i nifer o drefi eraill gan wynebu peryglon yn aml a chael profiadau emosiynol iawn.

Bydd y daith nesaf yn ystod mis yma pan fydd hi'n mynd a llwyth arall gan gynnwys degau o 'Trauma Teddies' gwau. Mae dau bwrpas i'r tedi sef casglu nawdd a rhoi cysur i'r cannoedd fydd yn eu derbyn.

Daeth y cyfarfod i ben drwy ganu cyfieithiad Nantlais o emyn E.A. Dingley : 'Rho imi nerth i wneud fy rhan i gario baich fy mrawd.'

Roedd pawb yn cytuno ar ddiwedd y gyfeillach bod sgwrs Jenny wedi bod yn brofiad arbennig ac wedi ennyn ein hedmygedd o'i hymroddiad a'i dewrder. Cyfranwyd £340 gan aelodau'r capel i noddi'r gwaith da.

Bydd y gyfeillach nesaf yng ngofal Maria.




Nos Wener, 17 Ionawr, bu Iwan Meical Jones yn trafod ei gyfrol Amser Drwg fel Heddiw yng nghyfarfod y Gymdeithas Lenyddol. Cadeiriwyd y noson gan Brenda Williams, Cadeirydd y Gymdeithas, a chyflwynwyd y siaradwr gan yr Athro Gruffydd Aled Williams. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gan Iwan ar gefndir ei nofel yn ardal Llanrwst yn ogystal â'r broses fanwl o ymchwilio, cynllunio ac ysgrifennu'r nofel – a gymerodd rai blynyddoedd i'w chyflawni.

Yn ystod y mis, derbyniwyd newyddion trist am farwolaeth dwy o'n haelodau, sef Mrs Jean Jones, Pencefn, a Mrs Gwenda James, Taigwynion. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'u teuluoedd yn eu galar a'u hiraeth.

## Clwb Gwawr Rhydypennau

Aeth Clwb Gwawr Rhydypennau i Libanus, y Borth, ganol Ionawr, a mwynhau pryd hyfryd o fwyd. Bydd y clwb yn dychwelyd i Libanus ddiwedd Chwefror, ond i'r sinema er mwyn gwylio *Bridget Jones* y tro hwn. Cofiwch fod croeso mawr i aelodau newydd – cysylltwch â'r swyddogion os oes gennych ddiddordeb.



**ADOLYGIADAU**

Non Mererid Jones *Merch y Wendon Hallt*, Gwasg Carreg Gwalch 140t. £7.99



Dyma nofel menyw ifanc yn ei chymuned, un sy'n destament o obaith penderfynol er nad yw'n meiddio cyfaddawdu yn y modd y mae'n llunio realiti. Mae llais prif gymeriad y nofel – llais prin, treiddgar na ellir ond ffoli ar ei hyfdra bregus – yn taflu sen ar y sâl a'r sentimental, gan gydnabod ei gwendidau a'i chyfyngiadau ei hun a'i chynefin. Mae'n derbyn na all gwrdd â gofynion pob delfryd. A thrwy hynny mae'n gwerthfawrogi bywyd mewn modd dyrchafol.

Deunydd y nofel yw darnau yng nghystadleuaeth stori fer Eisteddfod Genedlaethol 2023, am yn ail â nodiadau personol Myfi'r beirniad – menyw ifanc o Lŷn, a chanddi PhD a mab – wrth iddi fynd drwy'r cynnyrch. Dyma ddyfais glyfar: mae'n caniatáu cynnwys myfyrdodau cyffesol Myfi (rhai ohonynt yn seiliedig ar fywyd yr awdur, ac eraill yn ddychmygol), ond hefyd yn gerbyd i ddychan cyrhaeddgar yr awdur. Drwy greu ffuglen ffuglennol – gweithiau eisteddfodol ffug – dengys yn ddidrugaredd mor arwynebol-ddynwaredol yw cymaint o'n disgwrs diwylliannol. Mae nodiadau Myfi yn wrthbwynt herfeiddiol i'r cyffredinedd hwnnw.

Dilynir tri degawd o ddatblygiad ym mywyd merch: ansicrwydd yr arddegau, meddwi penchwiban a charu diystyr yr ugeiniau, a bendith gaethiwus mamolaeth y tridegau. Drwy bob cyfnod yn ei bywyd myn y cymeriad lywio cwrs union rhwng dau fygythiad o gondemniad moesol: rhwng rhai a fyddai'n ei barnu am hawlio'i rhyddid i wneud fel y myn, a'r rhai fyddai'n ei barnu am dderbyn diogelwch boring y batriarchiaeth.

Wrth ymadael i'r coleg aiff y rhyddid i ddewis gwisgo unrhyw hunaniaeth â bryd Myfi. Yn ddiweddarach, mewn cyfnod digyfeiriad, "iwsio'n gilydd" y mae hi a'i chariad anwadal – defod i fynd drwyddi yw'r berthynas, nid ymrwymiad trawsnewidiol. Hyd yn oed wrth ymroi'n llwyr i fagu ei mab a dotio arno ("setlo" fel y'i geilw'n gilwgus) mae Myfi'n gwrthod derbyn y syniad fod ei hunaniaeth wedi ei newid o ferch i fam – hi ei hun yw hi o hyd, wedi ei chyfoethogi gan brofiad a pherthynas newydd, ond yn sylfaenol yr un person.

Cyflwynir hefyd fywyd cyffredin tre fach yn Llŷn. Nid yw'n baradwys nac yn burdan chwaith. Mae weithiau'n farwaidd, ond wastad yn ffynhonnell o berthyn bywiol i Myfi. Mae iddi ei chorneli llwydion tamp, ond mae iddi hefyd dwyni euraid a thonnau gwarchodol yn galw. Dyw prisiau tai na phresenoldeb twristiaid a mewnfudwyr byth yn bell o ymwybyddiaeth Myfi, ac ni wedir mor agored yw Llŷn i'w difrodi ar drugaredd arian, ond dyw'r argyfwng ddim yn ei llethu na'i mygu. Trech na'r rhwystredigeth am anhawster ymsefydlu yn y fro yw'r awydd i wneud hynny, beth bynnag yw'r cyfaddawdau. Trech na'r pryder am y dyfodol yw'r penderfyniad i fyw a magu'n dda yma heddiw.

Dyma nofel sy'n ddigyfaddawd o driw i bethau fel y maent, a nofel sy'n cofleidio'r cyffredin gan wfftio cyffredinedd. Mae'n gwrthod gosod prawf moesol ar brofiadau bywyd cymuned na menyw. Yr un peth a gondemnir – yn gynnil ond yn boenus o ddigamsyniol – yw camymddwyn gwrywaidd, mewn cynadleddau academaidd fel ar Stryd Fawr Pwllheli, a cweit reit hefyd.

Mae'n gwrthod dilyn ystrydebau'n ddigwestiwn wrth ddehongli'r byd, ond yn barod i ganfod gwirioneddau yn yr ystrydebau hefyd. Dyw profiadau amwys menywod ifanc, na sefyllfa fregus cymunedau Llŷn – na simpilrwydd treuliedig llenyddiaeth Gymraeg o ran hynny – ddim yn themâu newydd. Ond mae Merch y Wendon Hallt yn rhoi blas ysbrydoledig o ffresh arnyn nhw, dos iach o ganiatâd i gymryd y byd fel y bo.

Ac er mor ddyfeisgar yw ei ffurf, ac mor feiddgar-feddylgar yw ei negeseuon, dyma nofel sy'n rhwydd i fynd drwyddi – un sy â cherrynt cry i'ch tynnu drwyddi. Mae'r testun tyn, ffraeth yn gwneud y darllen yn hawdd, a huodledd sinigaidd-annwyl y traethydd yn gwneud y darllen yn rheidrwydd. Os gall Llŷn a'n llên gynhyrchu gwaith fel hyn, mae gobaith eto.

**Guto Dafydd**

Adolygiad a gomisiynwyd gan Garreg Gwalch ar www.gwales.com, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru.

## Cronfa Eleri 2024

Rhwng 1998, pan sefydlwyd y gronfa, a 2024 derbyniodd y gronfa geisiadau am gymorth o dros £789,000 gan 374 o ymgeiswyr. Rhoddwyd cymorth i dros 200 ohonynt, cyfanswm o dros £400,000. Y cais unigol mwyaf a dderbyniwyd mewn un flwyddyn oedd am £15,000 a'r cymorth unigol uchaf a ddyfarnwyd mewn un blwyddyn oedd £7,500.

Bu natur y cynlluniau a gefnogwyd yn amrywiol iawn. Cyfrannwyd at adnewyddu adeiladau; prynu offer megis cadeiriau, llwyfannau ac offer uchelseinydd; offer chwaraeon a gwella adnoddau clybiau; adeiladu meysydd chwarae i blant; prynu offer i wasanaeth papur i'r deillion; datblygu cylchgronau ysgol a phapurau bro; noddi gweithiau celf a myrdd o gynlluniau eraill. Hyn oll yn unol a'r amcan gwreiddiol o "*Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwylliannol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu*". Nid yw rheolau Cronfa Eleri yn caniatáu cefnogaeth refeniw (h.y. costau cynnal rheolaidd) i fudiadau a chymdeithasau - dim ond cefnogaeth i gynlluniau penodol.

Cyfanswm y ceisiadau ar gyfer 2024 oedd £53,657.63. Cyfanswm y grantiau a roddwyd gan gronfa ar gyfer 2024 oedd £26,500.00. Diolch i Bwyllgor Cronfa Eleri am eu gwaith caled wrth benderfynu ar sut y dylai'r arian oedd ar gael (£26,520.86) gael ei ddosrannu yn unol ag amcan y gronfa. Gweithgareddau y llwyddwyd eu cefnogi eleni oedd: Ysgolion Pen-llwyn, Penrhyn-coch, Tal-y-bont a Craig yr Wylfa; Clybiau Pêl-droed Bow Street a Penrhyn-\ coch; Sioe a Neuadd Goffa Tal-y-bont; Meysydd Chwarae Rhydypennau a Tal-y-bont; Cletwr; Cynghorau Cymuned Ceulanamaesmawr a Genau'r Glyn; Cymuned Cwmsymlog.

Bydd y gronfa ar agor i geisiadau ar gyfer y flwyddyn 2025 ddiwedd Mis Tachwedd 2025. Manylion pellach, a gwybodaeth am y gronfa, ar gael ar wefan Cronfa Eleri (*cronfaeleri.cymru*).

# Y Borth

**Diogelu'r Toiledau Cyhoeddus**

Mae Cyngor Cymuned y Borth wedi cytuno i gyfrannu at y gost o gadw toiledau cyhoeddus y pentref yn agored.

Gan nodi cyfyngiadau ariannol, fe ofynodd Cyngor Sir Ceredigion i gynghorau tref a chymuned ar hyd a lled y sir y llynedd i gymryd cyfrifoldeb am doiledau cyhoeddus yn eu hardaloedd neu fe allai'r cyfleusterau gau.

Roedd sawl aelod o'r cyhoedd wedi mynychu cyfarfod arbennig o Gyngor Cymuned Y Borth ar nos Lun 20 Ionawr i glywed y drafodaeth ynghylch y ddwy set o doiledau cyhoeddus sydd yn y pentref – un ger gorsaf y bad achub a'r llall ger yr orsaf reilffordd ben arall y pentref.

Mynegwyd siom gan sawl un bod y cyngor sir wedi rhoi dyfodol y tai bach yn y fantol, gan ddweud bod eu cadw ar agor yn holl bwysig nid yn unig o ran iechyd a llesiant pobl leol ond hefyd i dwristiaid sy'n dod ar wyliau neu ar drip diwrnod i'r traeth. Ymhellach, dywedwyd fod cael toiledau cyhoeddus yn hanfodol os am gadw statws Baner Las y traeth, gan fod darparu cyfleusterau digonol yn un o'r meini prawf.

Wedi trafodaeth gynhwysfawr, pleidleisiodd y cynghorwyr o blaid talu £10,500 i Gyngor Ceredgion am Gytundeb Lefel Gwasanaeth i gynnal y tai bach ger gorsaf y bad achub yn ystod 2025-26, ar yr amod y byddai'r sir yn parhau i fod yn gyfrifol am y tai bach cyhoeddus ger yr orsaf reilffordd.

Bydd y gost yn ychwanegu £1.83 y flwyddyn at dreth cyngor trigolion band D, sy'n cyfateb i 15c y mis.

Caiff y sefyllfa ei adolygu yn 2026, a bydd y cyngor hefyd yn edrych i weld beth sy'n digwydd i'r toiledau cyhoeddus mewn mannau eraill yn y sir, lle mae rhai yn dewis cymryd cyfrifoldeb drostynt ac eraill yn dewis fel arall. Mae cofnodion llawn y cyfarfod i'w cael ar wefan y cyngor cymunedol: https://yborthcc.llyw.cymru.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau mawr i deulu Owen, Y Railway, ar enedigaeth ŵyr bach a gor-ŵyr yn ddiweddar. Hywel wedi dod yn daid ac Eirwen yn hen- nain. Mab bach i Ffion a Scott. Pob dymuniad da i'r teulu a chroeso mawr i Jac Haydn.

**Profedigaeth**

Gyda thristwch mawr y clywsom y newyddion am farwolaeth Rayma Williams ar ddydd Sadwrn 25 Ionawr. Roedd hi'n 80 oed. Yn enedigol o Frynaman, aeth Rayma i Lundain i weithio i gwmni yswiriant yn y ddinas cyn symud i fyw yn Y Borth yn y 1980au. Bu'n gweithio i Gyngor Sir Ceredigion cyn ymddeol. Roedd hi bob amser yn cefnogi digwyddiadau lleol a bu hefyd yn glerc Cyngor Cymuned Y Borth am sawl blwyddyn.

**Llwyddiant**

Llongyfarchiadau mawr i Rhys Pugh-Evans, gynt o 5 Ffordd Clarach, ar dderbyn 93% yn ei gyfweliad diweddaraf sy'n golygu y caiff ei ddyrchafu yn Is-swyddog gyda Brigad Dân Llundain. Mae wedi bod yn aelod gweithgar o orsaf Gogledd Kensington ers 2019 cyn cael dyrchafiad dros dro i orsaf Gorllewin Norwood o fis Mehefin 2024 tan y Nadolig. Yn ystod yr wythnosau nesaf caiff ddewis o restr o orsafoedd yn Llundain sy'n chwilio am Is-swyddog a chyfle i weithio mewn ardal newydd arall. Cynhelir yr angladd yn Amlosgfa Aberystwyth ar Fawrth 5ed am 2.00.

## Creu argraff

Llongyfarchiadau mawr i Jonah Evans, 25 oed o'r Borth, ar dderbyn gwobr arbennig ar ôl cyrraedd rhestr fer Gwobr Goffa Eirian Llwyd.

Caiff y wobr ei dyfarnu'n flynyddol i argraffydd sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru i'w galluogi nhw i ddatblygu eu sgiliau.

Roedd Jonah yn un o dri aelod o grŵp Gwneuthurwyr Print Aberystwyth ar y rhestr fer o saith eleni.

Mewn seremoni ym Mhlas Glyn y Weddw ddydd Sul 2 Chwefror, cyhoeddodd Ieuan Wyn Jones mai Flora MacLachlan oedd enillydd Gwobr Goffa Eirian Lloyd 2025. Ond am y tro cyntaf, cafodd gwobr arbennig ychwanegol ei dyfarnu gyda Jonah yn derbyn mil o bunnau i gydnabod safon uchel ei waith.

Caiff y gwaith print lino mae Jonah yn ei greu ei ysbrydoli gan fyd natur yn ogystal â chwedlau a straeon o fro ei febyd yn y Borth.



**Jonah Evans yn derbyn ei wobr gan Ieuan Wyn Jones ym Mhlas Glyn y Weddw.**

Mae gwaith yr enillwyr a'r holl artistiaid ar y rhestr fer yn cael ei arddangos yn oriel Plas Glyn y Weddw tan 16 Mawrth, ochr yn ochr â dros 40 o weithiau Eirian Llwyd. Bydd rhai o enillwyr blaenorol y wobr hefyd yn arddangos yno.



## Swper Amnest

Roedd cartref Jenny Williamson a Stuart Evans dan ei sang nos Sadwrn 1 Chwefror wrth i bobl ymgasglu yno ar gyfer swper cymunedol i godi arian i Amnest Rhyngwladol.

Cafwyd dewis eang o gyri llyseiol a detholiad gwych o bwdinau, ac fe godwyd £485 at yr achos mewn cyfraniadau.

# Colofn Clwb Golff Y Borth ac Ynys-las

## Catrin Pugh Jones

**Adran y Dynion**
Cymharol dawel yw'r golff ym misoedd oer y gaeaf ond mae'r dynion wedi bod wrthi'n ddiwyd yn chwarae ar ddydd Sul ym Mhencapwriaeth y Gaeaf. Dyma'r canlyniadau hyd yn hyn:
Rownd 2 - Stableford (ni chwaraewyd rownd 1 oherwydd storm) Yr enillydd ar 40 o bwyntiau oedd Bob Gill, cyn gapten y Clwb sy'n byw yma yn Y Borth. Elgan Rees ddaeth yn ail gan sgorio 37 o bwyntiau.
Rownd 3 - Bogey. Harvey Perkins oedd yr enillydd, gyda'i dad Nathan yn yr ail safle. Mae'r ddau yn byw yma yn y Borth ac mae Nathan a'i wraig Laura yn gyfrifol am wasanaeth arlwyo'r clwb.
Rownd 4 - Medal. Nathan Perkins oedd yr enillydd y tro yma ar 75 net, gydag Elgan Rees unwaith eto yn yr ail safle ar 77 net.

**Adran y Menywod** - **Cystadleuaeth Elusennol y Capteiniad – Parau Cymysg**
Ar ddechau'r flwyddyn chwaraewyd cystadleuaeth parau cymysg yn dilyn rheolau Greensomes Canada dros 9 twll i godi arian i elusennau y ddau gapten. Roedd yn gyfle i aelodau ailgydio yn eu clybiau golf yn dilyn dathliadau'r Nadolig a'r flwyddyn newydd. Gyda deg pâr yn chwarae ar y dydd, yr enillwyr oedd y capteiniaid Helen Lewis a Nick Downing gyda sgôr arbennig o 27 pwynt. Barbara Flanagan a Steve Evans ddaeth yn ail ar 24 pwynt. Hyfryd oedd gweld y clwb yn llawn ar gyfer y gwobrwyo a'r capteiniad yn diolch i bawb am eu cyfraniadau, gyda chyfanswm o £140 yn mynd tuag at eu helusennau.

**Cystadleuaeth Santes Dwynwen**
I ddathlu dydd Santes Dwynwen ar 25 Ionawr, chwareuwyd gêm parau. Dyma'r canlyniadau:
1af – Ruth Jones a Catrin Pugh Jones - 20 pwynt
2ail – Kathy Price a Clare Jones - 19 pwynt
3ydd – Barbara Flanagan a Jean Harrison - 17 pwynt

Parhaodd dathliadau Santes Dwynwen gyda'r hwyr pan gafwyd noson hyfryd yng nghwmni'r gantores o Sir Benfro, Lowri Evans a'i phartner Lee Mason. Roedd awyrgylch hynod braf yn y digwyddiad oedd yn agored i bawb, boed yn aelodau ai peidio. Cafwyd cefnogaeth gan gronfa Noson Allan sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Diolch i bawb am ddod.



**Dathlu Dydd Gŵyl Dewi**
Mair Tomos Ifans yw gwestai gwadd cinio Dydd Gŵyl Dewi y clwb golff eleni. Ar nos Wener 28 Chwefror, bydd y berfformwraig boblogaidd yn diddanu'r gynulleidfa gyda chwedlau a chaneuon o Gymru.
Mae'r digwyddiad ar agor i bawb, boed yn aelodau o'r clwb ai peidio. Mae tocynnau yn £23 y pen, gan gynnwys pryd dau-gwrs, ac ar gael o'r bar neu drwy gysylltu â'r capten Helen Lewis ar 07740 236901. Gofynnir i bobl archebu lle erbyn 23 Chwefror.

Ambell i gân, rhyw chwedl neu ddwy,
A thonc fach ar y tannau,
Clwb Golff y Borth, ddiwedd fis bach
Cewch wledda'n sŵn y tonnau!

**Anrhydeddu Nans**
Mae Bwrdd Cyfarwyddwyr Clwb Golff Y Borth ac Ynyslas wedi penderfynu cynnig Aelodaeth Oes Er Anrhydedd i Nans Morgan i gydnabod ei gwasanaeth rhagorol i'r clwb dros flynyddoedd lawer.
Ymunodd Nans a'r clwb pan oedd yn hanner cant. Roedd hi newydd ymddeol yn gynnar, meddai Nans wrth Y Tincer, ac roedd ei gŵr, y diweddar Deulwyn Morgan, yn hoff iawn o chwarae golf. Cafodd wersi gan swyddog proffesiynol y clwb, John Lewis, a chychwyn ar handicap o 36. Ymhen ychydig flynyddoedd, fe enillodd un o brif wobrau Adran y Menywod sef y Roberts Salver. Daeth Nans yn gapten y clwb yn 1999, yr un flwyddyn ag yr oedd Deulwyn yn llywydd.
"Yn y blynyddoedd ers i Deulwyn farw, mae golff wedi bod yn un o'r pethau sydd wedi fy nghynnal," meddai Nans, a fagwyd ym Mhennant ger Llanon ond sydd wedi byw yn Llandre ers priodi yn 1976. "Dydw i ddim yn chwaraewraig o fri ond rwyf bob amser wedi mwynhau cymryd rhan ac mae'r gwmnïaeth a'r ochr gymdeithasol wedi bod yn bwysig i fi."
Nans oedd ysgrifenydd pwyllgor adran y menywod am nifer o flynyddoedd, yn ogystal ag yn swyddog y wasg tan eleni pan drosglwyddodd yr awenau i Catrin Pugh Jones.
Mae Nans hefyd yn cael ei hadnabod yn y clwb fel 'Brenhines y Raffl' gan mai hi sydd bob amser wrthi'n gwerthu tocynnau i godi arian at achosion da. Pan oedd yn llywydd, fe gododd dros £1,000 i Mind a thros £1,000 i uned cemotherapi Ysbyty Bronglais drwy gynnal cystadlaethau golff a raffl, ac yn 2021, casglodd £1,100 tuag at gronfa Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion.
"Dw'i wedi gweld newid mawr dros y blynyddoedd," meddai Nans. "Mae tipyn mwy o Gymraeg yn y clwb golff y dyddiau hyn nag oedd pan ddechreuais chwarae dros 30 mlynedd yn ôl ac mae'r holl arwyddion ar hyd y cwrs yn ddwyieithog, gyda rhan helaeth o'r gwaith cyfieithu wedi'i wneud gan fy llysferch Lleucu."
Yn 83 oed bellach, mae Nans yn dal i chwarae golff ond mae'n dweud bod cymryd y bygi yn haws y dyddiau hyn a naw twll yn ddigon.
Pob hwyl ar y chwarae, Nans, a llongyfarchiadau mawr ar yr anrhydedd!







# Ysgol **Craig yr Wylfa**

**Diolch o galon**

Ar ddiwedd mis Ionawr derbyniwyd llythyr gan Diane Richards yn ymddiswyddo o gorff llywodraethol Ysgol Craig yr Wylfa. Roedd Diane wedi bod yn aelod o'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon neu'r llywodraethwyr am tua 45 o flynyddoedd – tipyn o gamp! Hoffwn ddiolch o galon iddi am ei gwaith diflino dros yr ysgol ac am ei hymroddiad i addysg yn y pentref. Byddwn yn gweld eisiau ei chyfraniadau doeth a'i phrofiad helaeth wrth i ni wynebu'r dyfodol. Mwynhewch eich ymddeoliad haeddiannol a chofiwch alw i'n gweld yn fuan.



**YSGOL IACH**

**Ymwelydd Arbennig**

Mae'n hyfryd weithiau gallu manteisio ar gyfleodd annisgwyl ac yn sicr roedd cael croesawu un o athletwyr Tîm Cymru i Ysgol Craig yr Wylfa yn un o'r rheiny. Yr athletwraig oedd Ashleigh Barnikel a'i champ yw jiwdo. Fe roddodd ychydig o'i hanes i ni ac am ei diddordeb yn y maes a sut mae erbyn hyn yn paratoi ar gyfer cynrychioli Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad y flwyddyn nesaf. Diolch yn fawr am ddod atom i ddangos rhai o'r symudiadau ac am fod mor barod i ateb ein cwestiynau. Pob hwyl yn y dyfodol a croeso i chi alw fewn unrhyw bryd i'n gweld ni. Diolch o galon i Maria am gydlynu'r ymweliad hefyd.

**Ysgol y Goedwig**

Er gwaethaf rhai prynhawniau gwlyb ac oer, mae gweithgareddau Ysgol y Goedwig wedi parhau yn ddi-stop! Rydym wedi bod yn brysur iawn yn ystod mis Ionawr yn dysgu am adar. Gweithgareddau poblogaidd iawn oedd creu nythod a bwydwyr ar gyfer yr holl adar sy'n hedfan o gwmpas yr ysgol a buom yn creu cuddfan ar gyfer gwylio adar hefyd ar gyfer cyfri blynyddol yr RSPB. Rydym yn gobeithio gweld defnydd o'r nythod a'r bwydwyr yn ystod yr wythnosau nesaf.

**SIARTER IAITH**

**Cynefin ar Gân**

Gweithgaredd arall ar y cyd oedd recordio'r gân a gyfansoddwyd cyn y Nadolig gyda ffrindiau o Ysgol Tal-y-bont ac ysgolion eraill gogledd Ceredigion i gyd-fynd gydag amcanion Y Siarter Iaith. Roedd ymateb y plant yn frwdfrydig iawn wrth iddyn nhw gydweithio gyda'r cerddor enwog Mei Gwynedd a da iawn i bawb am ganu mor swynol. Diolch yn fawr i swyddogion y Siarter Iaith







am drefnu ac rydym yn edrych ymlaen at glywed y fersiwn gorffenedig ar Ddydd Miwsig Cymru ym mis Chwefror.

**Dydd Santes Dwynwen**

Gweithgaredd poblogaidd arall yn ystod y mis oedd creu calonnau allan o bren ar gyfer Diwrnod Santes Dwynwen. Ac fe benderfynodd rhai disgyblion ddewis rhoi eu calonnau ar gerdyn a defnyddio lliwiau naturiol yr ardal o gwmpas yr ysgol i'w lliwio'n hardd.



# Cyngor Cymuned **Geneur Glyn**

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau Ionawr 16 gyda'r Is- gadeiryd Tom Holt yn y gadair. Croesawodd bawb i gyfarfod cyntaf 2025.

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Mis Tachwedd 2024 fel rhai cywir.

Roedd y clerc wedi derbyn sawl llythyr / ebost yn gofyn am gyfraniad ariannol. Eleni cytunodd y Cyngor i gefnogi *Y Tincer*, *Y Ddolen*, Sioe Capel Bangor, Merched y Wawr Melindwr, Clwb ar ôl Ysgol a Chymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Pen-llwyn, Guild Cwmrheidol ac Aber-ffrwd, Yr Urdd Ceredigion ac Ambiwlans Awyr Cymru. Rhannwyd cyfanswm o £2,000

Yn ystod y cyfarfod trafodwyd diffyg mynediad i'r We yn y Neuadd, dim graeanu y ffyrdd bach a'r effaith mae hyn yn gael ar bobl y gymuned a stad rhai o'r ffyrdd cefn a gofynnwyd i'r clerc i gysylltu â clic Ceredigion ynglŷn â'r tyllau ar y ffyrdd yma.

Mae yna sedd wag ar y Cyngor, os oes gan rhywun ddiddordeb yn ymuno â Cyngor Cymuned Melindwr cysylltwch â'r clerc neu un o'r cynghorwyr.

Cynhelir cyfarfod mis Chwefror yn Neuadd Pen-llwyn Capel Bangor ar nos Iau 20fed am 7.30yh.

**YSGOL GREADIGOL**

**Ymwelwyr Arbennig**

Ym mis Tachwedd aethon ni i weld arddangosfa o waith argraffu Ruth yn Oriel MOMA ym Machynlleth.
Ym mis Ionawr, daeth Ruth i'r ysgol a dyma'r tro cyntaf ers sbel fawr iddi ymweld ag Ysgol Craig yr Wylfa. Dyma ymateb rhai o'r disgyblion i'r gwaith -
Roeddwn i wedi mwynhau achos bod fi wedi helpu Ruth ac roedd yn hwyl (Vavara a Logan).
Roeddwn i wedi mwynhau achos bod e'n gyfle i greu Celf (Onno).
Roeddwn i wedi mwynhau achos roedd yn edrych yn cŵl a dwi'n hoffi Celf (Leighton).
Roeddwn i wedi mwynhau achos roedd yn gyfle i weld os oeddwn i'n hoffi gwahanol fathau o Gelf (Ellie).
Roeddwn i wedi hoffi defnyddio'r pensil i wneud patrwm a ni'n hoffi creu patrymau (Idris ac Ellie).
Diolch yn fawr i Helen hefyd a oedd wedi cydweithio i drefnu'r sesiwn a diolch i Gyngor y Celfyddydau am y nawdd hael.

**Gwersi Offerynnol**

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch yn fawr i athrawon peripatetig cerdd sy'n dod yma i ddysgu'r plant sut i chwarae offerynnau a diolch hefyd i'r rhieni am ymrwymo i'r gwersi.







**YSGOL Y GYMUNED**

Ymwelydd diddorol arall o'r gymuned oedd Ghost y dylluan wen o'r Anifeilfa yn y Borth. Roedd y plant wrth eu boddau'n cael cyfle i weld yr aderyn hardd mor agos a dysgu ffeithiau am ei bywyd. Ond yr hoff weithgaredd oedd chwilio drwy'r pelenni am esgyrn! Dyma oedd sylwadau Vasylyna, "Roeddwn i wedi hoffi gweld y dylluan achos mae'n nhw'n ciwt ac mae nhw yn gwneud sŵn rhyfedd pan mae eisiau bwyd. Roeddwn i'n hoffi gweld y patrymau ar y plu hefyd.

**Clwb ar ôl Ysgol**

Diolch yn fawr i'r staff am gynnal clwb wythnosol yn yr ysgol, ac am feddwl am weithgareddau amrywiol i ddiddanu'r disgyblion.

**Plant 3 oed?**

Cofiwch gysylltu gyda ni os oes gyda chi blentyn sydd yn 3 oed, cysylltwch gyda ni er mwyn i ni allu rhannu ein cynlluniau cyn ysgol gyda chi.

## Trefeurig

**Ethol yn flaenor**

Mae 75 mlynedd ers i M Wynford Evans, Aberystwyth bellach, gael ei ethol yn flaenor ganwasanaethu fel blaenor yng Nghapel Bethlehem, Cwmerfyn ac fel blaenor yn yr Henaduriaeth. Cafodd ei longyfarch yng nghyfarfod yr Henaduriaeth a gyfarfu yng Nghapel y Morfa ar Ionawr 23ain.

## Cyngor Cymuned **Tirymynach**

Cyfarfod 29 Ionawr 2025
Trafodwyd:

- praesept 2025 a'r ceisiadau am grantiau. Bydd y symiau'n cael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf
- digwyddiad goleuo'r goeden Nadolig – codwyd dros £100
- biniau sbwriel a biniau graeanu'r ward
- parc Bryncastell – mae angen gwario swm sylweddol ar y parc, gan gynnwys trwsio'r ffens a'r llawr
- peiriant di-ffib y neuadd – trefnu trwsio'r gwresogi
- llwybrau cerddwyr/beicwyr yn y ward – angen cadarnhau pwy sy'n berchen y tiroedd lle mae llwybrau newydd yn cael eu creu neu eu hail-leoli

Cyfarfod nesaf: **26 Chwefror**, 6.30, Neuadd Rhydypennau.
Os ydych am godi unrhyw fater, cysylltwch â Gareth Lewis, cynghorydd y ward, neu ebostiwch tirmynach@gmail.com



## Madog, Dewi / Cefn-llwyd

**Marchnad Aberystwyth**
Marchnad Aberystwyth (2037 cliriad llwyr)
Masnachu gwych heddiw eto gyda llawer o wyn bach yn cael eu cynnig.Yn drist gwerthwyd 143 o famogiaid magu ar ran y diweddar Arwyn Hughes, Cefncoch ac roeddynt yn gwerthu am £109 ar gyfartaledd. Roedd popeth yn hawdd i'w werthu gyda 21 prynwr gwahanol yn bresennol.
Defaid lladd (941)
Cyf £97 Mwy £200 gan Evans, Penllyn, Tywyn.
Hyrddod lladd (89)
Cyf £139 Mwy £218 gan Hughes, Llwynbedw, Llangwyryfon.
Wyn stôr (864)
Cyf £84 Mwy £156 gan Lewis, Cefnllwynpiod.

Diflas oedd gwerthu defaid Arwyn Hughes, Cefncoch. Roedd popeth yn gwerthu yn hynod o dda yn enwedig gyda chyfartaledd yr ŵyn yn £89 er bod rhan mwyaf yn ŵyn bach.

Diolch i'r prynwyr a'r gwerthwyr am eu cefnogaeth a'u presenoldeb.



**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Dai a Wendy Evans, Fferm y Fronfraith, ar enedigaeth eu hŵyr bach Deio Prys Pugh Evans, mab bach i Rhys a Ceri a brawd bach i Anna Mair.

Hefyd llongyfarchiadau i Mrs Myfanwy Pugh, Fronddewi, ar enedigaeth gorwyr.

## Ysgol Penrhyn-coch



**Sgwrs Senedd Cymru**
Braf oedd croesawi Senedd Cymru i gynnal gweithdy gyda disgyblion blwyddyn 5&6 ar Ionawr 9fed. Cyfle grêt i ddisgyblion ddysgu am sut mae Cymru'n cael ei lywodraethu.

**Cwmni Tai Wales and West**
Diolch i Gwmni Tai Wales and West sydd wedi gado £15,232 tuag at ddatblygu maes chwarae'r ysgol. Rydym mor ddiolchgar i'r cwmni am ei chyfraniad. Bydd hyn, ynghyd ag arian a godwyd gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn golygu bod gwaith yn medru dechrau yn fuan i wella cyflwr y buarth chwarae, a'i wneud yn ddiogel ac yn sych ar gyfer misoedd y Gaeaf.






*Crefftau Pennau*
*Coffi Boreuol*
*Byrbrydau Poeth neu Oer*
*Cinio*
*Te Prynhawn*
*Crefftau Ac Anrhegion*
*Ar agor*
*Llun-Sadwrn*
*9.00-4.30*
*Sul: Ar gau*
Brecwast ar gael
01970 820 050
Pennau

COPI CYWIR
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

## ‘GYDA’N GILYDD GALLWN LWYDDO’ – PENRHYN-COCH A PHEN-LLWYN AR Y CYD

**Cadwch Gymru yn daclus**
Fel rhan o’n gwaith ar ddatblygu’r ardaloedd allanol yn sgil derbyn grant Cadwch Gymru’r daclus, braint oedd cael croesawi Huw Iranca-Davies, Dirprwy prif weinidog i safle’r ysgol i weld y buddiannau i safle Ysgol Penrhyn-coch yn sgil y grant, ac i siarad gydag aelodau Senedd Ysgol Penllwyn a Penrhyn-coch ynghylch eu gwaith gydag ysgolion Eco. Braf oedd cael derbyn ein bod yn parhau fel ysgol Platinwm, fel rhan o’r bore. Diolchwn i gwmni Cadwch Gymru’n Daclus, yn benodol i Eurig Jonvier am ei waith yn datblygu’r safle fel rhan o’r grant. Diolch hefyd i Bethan Evans a Bethan Phillips yn hyrwyddo gwaith Eco o fewn yr ysgol. Diolch hefyd i Alice Baynton bu’n cynnal gweithgareddau beicio a sgwtera yn ystod fore’r ymweliad ac i’r rhieni bu’n gwirfoddoli wrth gynnal ein bws cerdded.

**Gala Nofio**
Llongyfarchiadau i bob un bu’n cynrychioli y ddwy ysgol yng Ngala Nofio Cylch Aberystwyth yn ddiweddar. Diolch i chi am ymdrechu a mentro i gystadlu.

**Llysgenhadon Lles Cynradd**
Mynychodd ein llysgenhadon lles weithdy ar iechyd meddwl plant gan gynnig gweithgareddau posib i’w wneud yn yr ysgol. Yn sgil hyn mae disgyblion wedi bod yn hyrwyddo strategaethau ar gyfer hybu iechyd meddwl iachus a dathlu Number Day yr NSPCC.

**Diwrnod Crefyddau’r Byd**
Dathlwyd diwrnod crefyddau’r byd ar draws y ddwy ysgol. Pleidleisiodd disgyblion i ddysgu mwy am grefydd Islam. Diolch i Saboor o Fosg Aberystwyth a ddaeth i rhannu gwybodaeth am ei grefydd gyda disgyblion. Holodd disgyblion gwestiynau diddorol iawn iddo. Roedd pawb wedi mwynhau gweithgareddau celf Islamaidd gan ddefnyddio siapau geometrig i greu patrymau.

**Prosiect E-sgol Gwyddoniaeth**
Bu disgyblion blynyddoedd 3-6 y ddwy ysgol wrth eu bodd yn ymuno gyda phroject e-sgol yn cynnal arbrofion yn ymwneud gyda sut oedd hylifau gwahanol yn glanhau darn o arian copr! Er mawr syndod i bob un - sos coch oedd y gorau!

## Ysgol **Pen-llwyn**

**Sied Gwaith Coed**
Rydym yn ffodus iawn o fod wedi derbyn sied newydd sbon gan gwmni Walters, Cwm Rheidol, ar gyfer datblygu ein cwricwlwm i fod yn cynnig gwaith coed i ddisgyblion yn ysgol Penllwyn. Mae disgyblion wrthi yn cynllunio pa adnoddau sydd angen a pha arwyddion fedrwn arddangos yn y sied er mwyn inni cael dechrau creu!



**Trip i RSPB Ynyshir**
Mwynhaodd disgyblion yr ysgol ymweliad ag Ynyshir fel rhan o ymgyrch Adar yr Ardd RSPB. Mwynhaodd ddisgyblion mas draw weld crychydd, robin goch, pioden a chael gwario’r bore allan ym myd natur.



*Bancydarren, Capel Dewi, Capel Madog, Cefn-llwyd, Cwmerfyn, Cwmsymlog, Llwyn-prysg, Penrhiwnewydd, Pen-bont Rhydybeddau, Penrhyn-coch, Salem*

**Gwefan Cymuned Trefeurig**

**trefeurig.cymru**

- Newyddion diweddaraf
- Hanes a hen luniau
- Cyngor Cymuned
- Mudiadau
- Y Tincer

Gwefan Trefeurig Website  Trefeurig8




**BRIDGE HOUSE CLEARANCE**

Gardd neu Sied – Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Yswiriant llawn, Pris am ddim

f 07792457816/01974 261758

**SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH**
Perchennog: Laurence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a’r Sul, cardiau cyfarch siop drwyddiedig
01970 828312

**JONATHAN LEWIS**
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD, CAPEL BANGOR ABERYSTWYTH

**ADWEITHEG**
Bethan Ifan
Aberystwyth
07375422608
Tocynnau rhodd ar gael

**GWASANAETH CYFIEITHU**
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ



01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com










# Ysgol **Rhydypennau**



Tywydd Gaeafol

**Blwyddyn Newydd**

Ar ddechrau'r flwyddyn newydd, daeth cawodydd gaeafol i'n croesawu ni nôl i'r ysgol. Roedd y plant wrth eu bodd yn mwynhau ein hamgylchedd gwyn hudol wrth chwarae ar iard yr ysgol.

**Llangrannog**

Ar fore'r 21ain o Ionawr, fe deithiodd plant blwyddyn 3 a 4 i wersyll yr Urdd, Llangrannog am ddau ddiwrnod o ddifyrrwch. Yn ystod y cymdeithasu a'r hwyl, bu'r plant yn brysur iawn yn mwynhau nifer o weithgareddau amrywiol gan gynnwys gwibgartio, marchogaeth, saethyddiaeth a gwylltgrefftio. Dychwelodd y plant i'r ysgol wedi blino'n lân ond wedi mwynhau profiadau'r gwersyll yn fawr iawn.

**Gweithgareddau**

Mae gweithgareddau Adran yr Urdd yn parhau. Rydym yn



Blwyddyn dau yn dysgu am adar gyda Owain



Tîm nofio'r ysgol.



Dathlu Diwrnod Santes Dwynwen




Mwynhau gwersyll Llangrannog

cwrdd yn wythnosol ar nos Fercher yn neuadd y pentref ac mae'r plant wrth eu bodd yn cymdeithasu a mwynhau amrywiaeth o weithgareddau. Diolch i Bwyllgor Neuadd Rhydypennau am ganiatáu'r trefniant wythnosol hwn.

Llongyfarchiadau i Beau blwyddyn 5 ar gystadlu mor wych yn rownd rhanbarthol 'Poburdd' sef cystadleuaeth pobi blynyddol yr Urdd. Roedd ei gacennau bach yn werth eu gweld ac yn flasus iawn! Da iawn ti!

I ddathlu Diwrnod Santes Dwynwen mi fuodd plant pob dosbarth yn mwynhau gwrando ar yr hanes a chwblhau pob math o weithgareddau difyr.

Ddydd Mercher 29ain o Ionawr daeth Owain o Bentre Ifan, yr Urdd i'r ysgol i gynnal gweithdy adar gyda blynyddoedd 1 a 2. Bu'r plant yn dysgu am edrychiad a synau adar gwahanol a llawer o ffeithiau amdanynt. Buon nhw hefyd yn creu peli braster er mwyn hongian ar dir yr ysgol i ddenu adar. Diolch yn fawr i Owain am ei amser.


Tro plant blwyddyn 3 oedd hi i gynnal stondin gacennau yr ysgol y mis hwn; ar ôl y prynu, y gwerthu a'r bwyta awchus, codwyd £119! Campus!

**Chwaraeon**


Da iawn i'r tîm nofio am gystadlu mor wych yng ngala cylch Aberystwyth yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am ddod yn y tri cyntaf-Tîm cyfnewid Bechgyn blwyddyn 5 sef Beau, Caden, Oliver, Noah, Charlie. Tîm cyfnewid Merched blwyddyn 4 Cadi, Carian, Enfys, Elen, Mia, Rhian. Tîm Cyfnewid Bechgyn blwyddyn 4- Leonardo, Bobi Jo, Harri, Jac. Beau-Rhydd bechgyn blwyddyn 5 3ydd, Cadi-Cefn merched blwyddyn 4-2il; Mia-Broga merched blwyddyn 4-1af; Leonardo-Cefn bechgyn blwyddyn 4-1af; Harri-Broga bechgyn blwyddyn 4-2il; Bobi Jo-Rhydd blwyddyn 4-3ydd. Ardderchog!

**Gorchest!**

Llongyfarchiadau mawr i Elinor am ennill cystadleuaeth adolygiad rhaglen dyledu a osodwyd gan y Tincer ddechrau'r Flwyddyn Newydd. Da iawn ti!



Beau a'i gacennau



Adran yr Urdd yn neuadd y pentref



Elinor – Enillydd gwobr ysgrifennu'r Tincer

## Clwb Cant

Dyma ganlyniad Ionawr
1af – £25 – Simone Belwshaw
2il – £15 – Kirsty Edwards
3ydd – £10 – Olivia Griffiths

Dyma ganlyniad Chwefror
1af – £25 – Molly Lloyd Owen
2il – £15 – Carian Evans
3ydd – £10 – Glendora Jenkins
Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau: *http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk*
*@YGRhydypennau dilynwch ni ar drydar.*

# Tasg y Tincer

Daeth llond sachaid o luniau drwy'r post i mi, yn llawn calonnau! Diolch i Anest Emlyn, Penrhyn-coch; Cadi Grug Edwards, Cemaes ger Machynlleth; Aria, Llandre; Alys, Bow Street; **Ania Wyn Hughes**, Penrhyn-coch; Ffion Pugh, y Borth; Ani Morgan Jones, Llandre; Elsi Wynn, Penrhyn-coch. Dy lun di, Ani Morgan Jones, ddaeth o'r het yn gynta. Hwrê i ti, a llongyfarchiadau i chi I GYD am greu lluniau mor arbennig.



Ania

Byddwn ni'n dathlu sawl peth ar ddechrau mis Mawrth. Yr un mwyaf pwysig yw Dydd Gŵyl Dewi ar y 1af o Fawrth. Cofiwch wisgo cenhinen, neu genhinen Bedr! Beth am ddysgu 3 ffaith am Dewi Sant?

Beth oedd enw mam Dewi?
Beth ddigwyddodd yn Llanddewibrefi?
Beth yw lliwiau baner Dewi?
Beth sy'n dilyn Gŵyl Ddewi?

Dydd Mawrth Ynyd (4 Mawrth), neu Dydd Mawrth Crempog – hwrê! Ac wedyn mae Diwrnod y Llyfr (6 Mawrth). Beth am fynd â'ch hoff lyfr i'r ysgol, neu wisgo fel eich hoff gymeriad? Mae'r wythnos honno yn un brysur dros ben!



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn — Oed

Lliwio llun draig sy'n edrych ymlaen at ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod y Llyfr yw'r dasg. Beth am roi teitlau ar y llyfrau? Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP (neu anwenmai@hotmail.co.uk) erbyn 10 Mawrth. Ta ta tan toc!

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
*Rhif 476 | Chwefror 2025*